Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

Eich cyf/ Your ref:

Ein cyf/Our ref: fA1077100

**At**: Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub
Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

24 Chwefror 2017

Annwyl gyfaill,

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2017/18**

Mae'r Panel yn gwerthfawrogi ymatebion unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r adroddiad drafft a gyhoeddwyd ym mis Medi y llynedd. Rydym wedi ystyried y sylwadau a fynegwyd a lle y bo'n briodol wedi eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Ers y llynedd, bu newid sylweddol i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru a maes o law byddwn yn ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r strwythur presennol llywodraeth leol sy'n dod o fewn ein cylch gwaith.

Mae'r Panel wedi penderfynu rhoi cynnydd bach iawn yn y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, y cynnydd cyntaf ers 3 blynedd, gyda chynnydd canlyniadol ar gyfer aelodau o'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau Tân ac Achub. Nodir y newidiadau eraill yn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol yn y cyflwyniad i'r adroddiad. Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau bydd yr adroddiad yn cymryd effaith ar ôl yr etholiadau ar 4ydd Mai.


Ystafell /Room M05
Llawr Cyntaf/First Floor
Adeiladau Coron/Crown Buildings
Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 029 2080 1047

Ebost/Email: irpmailbox@wales.gsi.gov.uk
www.remunerationpanelwales.org.uk
www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.org.uk

Mae'r Panel yn credu ei bod yn hanfodol parhau i gael deialog adeiladol gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan ei benderfyniadau. Felly yn ystod yr haf/hydref rydym yn bwriadu ymweld â bob un o'r Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol newydd eu hethol a fydd yn rhoi cyfle i aelodau a swyddogion i drafod materion sy’n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol o fewn cyfrifoldeb y Panel. Rydym yn edrych ymlaen at drafodaeth ddefnyddiol i'r ddwy ochr.

Yn gywir



John Bader
Cadeirydd y Panel

Ystafell /Room M05
Llawr Cyntaf/First Floor
Adeiladau Coron/Crown Buildings
Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 029 2080 1047

Ebost/Email: irpmailbox@wales.gsi.gov.uk
www.remunerationpanelwales.org.uk
www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.org.uk

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Blynyddol

Chwefror 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG29312 ISBN digidol 978-1-4734-7092-7

## RHAGAIR

Bu rhai newidiadau i aelodaeth y Panel eleni. Adroddiad 2016 oedd yr olaf a gynhyrchwyd o dan arweiniad Richard Penn fel Cadeirydd. Rwyf i a'r aelodau eraill yn hynod ddiolchgar iddo am yr arweiniad a rhoddodd i'r Panel yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Mae gennym 3 aelod newydd – Julie May a benodwyd o 1 Ionawr 2016, Sarah (Saz) Willey a Roger Symonds, y ddau wedi'u penodi o 1 Mehefin 2016. Mae Stephen Mulholland a Greg Owens wedi'u hail-apwyntio fel aelodau'r Panel o 1 Ionawr 2017. Ceir yr aelodaeth lawn isod.

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i fformat yr adroddiad a gobeithiwn y bydd yn gwneud y cynnwys yn gliriach ac yn fwy cryno.

Mae'r newidiadau penodol i'n penderfyniadau yn cynnwys cynnydd cymedrol iawn i'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig, gyda chynnydd canlyniadol ar gyfer Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Y cynnydd hwn o 0.75% yw'r cyntaf ers 3 blynedd ac mae'n dilyn llacio ychydig ar y cyfyngiad ar gyflog gweithwyr y sector cyhoeddus.

Rydym yn cyflwyno trefniadau i gydnabod goblygiadau salwch hirdymor ymysg deiliaid cyflog uwch. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i ddarparu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau heb danseilio'r egwyddor o bennu taliadau, sy'n parhau i gael cefnogaeth.

Roedd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn ehangu cylch gwaith y Panel i roi ystyriaeth i newidiadau arfaethedig i gyflogau prif swyddogion prif gynghorau. Roedd hyn i bob pwrpas yn estyniad i'n rôl o ran penaethiaid gwasanaethau cyflogedig cynghorau ac awdurdodau tân ac achub. Rydym wedi gwneud argymhellion ar nifer o gyflwyniadau yn ystod y flwyddyn; mae'r rhain i'w gweld yn adran 15 yr adroddiad.

Hoffwn ddiolch i'r sefydliadau ac unigolion sydd wedi ymateb i'r adroddiad drafft. Rhoddir ystyriaeth i'r ymatebion bob un a lle oedd yn briodol rydym wedi gweithredu. Hoffwn ddiolch i aelodau eraill y Panel a hefyd ein Hysgrifenyddiaeth ddiwyd ac ymroddedig am eu cyfraniad sylweddol i'n gwaith yn ystod y flwyddyn.

John Bader
Cadeirydd

**Aelodaeth y Panel**

John Bader – Cadeirydd
Gregory Owens - Is-gadeirydd
Stephen Mulholland
Julie May
Saz Willey
Roger Symonds

Mae mwy o wybodaeth am yr Aelodau ar gael ar y wefan:
http://gov.wales/irpwsub/home/?lang=cy

## Cynnwys


Cyflwyniad 3

Gweithredu'r Penderfyniadau 7

1. Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 8

2. Tudalen Grynodeb yr Adroddiad Blynyddol 10

3. Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gynghorau: Cyflogau Sylfaenol, Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig 11

4. Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu 21

5. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gynghorau 22

6. Hawl i Absenoldeb Teuluol 23

7. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 24

8. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru 28

9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub 32

10. Ad-dalu Costau Gofal 34

11. Absenoldeb Oherwydd Salwch i Ddeiliaid Uwch Gyflogau 35

12. Ad-dalu Costau Teithio a Chynhaliaeth Pan Fo'r Aelod ar Fusnes Swyddogol 37

13. Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned 39

14. Cydymffurfio â Gofynion y Panel 43

15. Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Taledig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub a Phrif Swyddogion Prif Gynghorau 44

Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2017/18 56

Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ar gyfer: 61

Atodiad 3: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 76

Atodiad 4: Cyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol – Gofynion y Panel 78

Atodiad 5: Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 80

# Cyflwyniad



**Dyma nawfed Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a'r chweched i gael ei gyhoeddi o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

1. Fel gydag Adroddiadau blaenorol y Panel, mae ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau'n seiliedig ar gyfres o egwyddorion a nodir yn Adran 1 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

2. Mae'r Panel yn dal i fod yn bendant o'r farn na ellir cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraethu leol heb fynd i gostau. Mae aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys aelodau cyfetholedig ac aelodau penodedig) yno i gynrychioli buddiannau pobl leol, llywodraethu cymunedau lleol, a sicrhau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig gwerth am arian i drethdalwyr lleol trwy graffu effeithiol. Mae'r rhain yn dasgau pwysig a sylweddol i aelodau awdurdodau perthnasol o fewn cylch gwaith y Panel. Mae cydnabyddiaeth ariannol a gyllidir yn gyhoeddus ar gael i annog amrywiaeth o bobl barod a galluog i fynd ati i lywodraethu'n lleol, trwy'r rolau y cânt eu hethol, eu penodi neu eu cyfethol iddynt.

3. Diwygiodd Adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gan fewnosod Adran 143A. Mae hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw brif gyngor neu awdurdod tân ac achub sy'n bwriadu newid cyflog ei Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ymgynghori â'r Panel oni bai bod y newid yn gyson â newidiadau a gymhwysir i swyddogion eraill. Mae Adran 143A hefyd yn galluogi'r Panel i ffurfio barn ynglŷn ag unrhyw beth yn Natganiad Polisi Tâl awdurdod sy'n ymwneud â chyflog y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (fel arfer y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Tân). Fe estynnodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 y cyfrifoldeb hwn, dros dro, i Brif Swyddogion prif awdurdodau. Caiff y ffordd y mae'r Panel yn defnyddio'r pŵer hwn ei nodi yn Adran 15 o'r Adroddiad hwn ac mae'n cyd-fynd â'r canllawiau i'r Panel a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

4. Wrth bennu lefel y taliadau i aelodau cynghorau lleol, mae'r Panel wedi ceisio cydymffurfio â'i egwyddor *'derbynioldeb'* trwy sicrhau nad yw'r rhain *'mor uchel fel bod angen dargyfeirio adnoddau sylweddol o flaenoriaethau allweddol cyngor'*. Ond mae Adran 142(8) o'r Mesur yn fwy eglur ar *'fforddiadwyedd'* gan nodi "*wrth osod swm*[1] *... rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol gwneud hynny ar awdurdodau perthnasol*". Mae ateb gofyniad y Mesur o ran fforddiadwyedd wedi bod yn her i'r Panel, yn enwedig oherwydd diddordeb y cyhoedd mewn taliadau a wneir i

[1] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted.

aelodau. Mae'r Panel yn cydnabod bod mater fforddiadwyedd – mewn perthynas â chyllidebau gwasanaethau awdurdodau perthnasol ac mewn perthynas ag incwm gwario etholwyr – yn debygol o gael effaith bwerus ar ganfyddiad y cyhoedd am unrhyw godiadau mewn taliadau i aelodau.

5. Gan mai arian o bwrs y wlad a ddefnyddir, mae'n rhaid i daliadau i aelodau am eu hamser, gwerth a chyfrifoldeb fod, a chael eu gweld i fod, yn deg ac yn fforddiadwy. Roedd penderfyniadau'r Panel yn ei Adroddiad yn 2009 yn cysylltu taliadau ag enillion gros canolrifol gweithwyr llawn-amser sy'n byw yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Pennwyd y cyflog sylfaenol ar lefel a oedd yn dair rhan o bump o Gyflog Canolrifol Cymru Gyfan, ac fe bennwyd uwch gyflogau ar lefelau a oedd yn lluosrifau o'r cyflog canolrifol blynyddol hwn. Wrth bennu'r cyflogau hyn, roedd y Panel yn cydnabod bod yna gyfraniad di-dâl i wasanaeth cyhoeddus.

6. Yn sgîl y cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn benodol nid yw wedi bod yn bosibl cynnal y cysylltiad ag enillion cyfartalog yng Nghymru. Ar y sail wreiddiol, sef 3/5 o'r cyfartaledd byddai'r cyflog sylfaenol blynyddol yn uwch nag £14,700. Mae'r Panel wedi bod yn ymwybodol o'r cyfyngiad ariannol a dyna'r rheswm pam nad yw cyflog sylfaenol aelodau etholedig o brif gynghorau wedi cynyddu ers 2013. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith nad oedd staff cynghorau'n cael codiadau cyflog. Bu ychydig bach o lacio'n fwy diweddar ac mae codiadau bach wedi cael eu caniatáu.

7. Yng ngoleuni'r ffactorau hyn, mae'r Panel wedi penderfynu ei bod yn briodol darparu cynnydd bach iawn o £100 yn y cyflog sylfaenol blynyddol, sy'n tua 0.75%. Ni chynigir cynnydd mewn uwch gyflogau ond bydd deiliaid y swyddi hyn yn cael y cynnydd yn yr elfen sy'n gyflog sylfaenol.

8. Tra yn yr amgylchiadau economaidd presennol nid yw'n bosibl i adfer y cysylltiad rhwng y cyflog sylfaenol ac enillion cyfartalog Cymru, bydd y Panel, yn y dyfodol, yn archwilio meincnodau posibl a fyddai'n briodol ar gyfer talu aelodau etholedig.

9. Fe gyflwynodd Adroddiad Blynyddol 2016 ddwy lefel o gyflog ar gyfer aelodau o weithrediaethau cynghorau a chadeiryddion pwyllgorau prif awdurdodau, Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau). Fe wnaeth hyn er mwyn darparu hyblygrwydd i alluogi awdurdodau i adlewyrchu, yn eu rhestrau o gydnabyddiaeth ariannol, amrywiadau yn lefel cyfrifoldeb portffolios a chadeiryddion. Mae'r Panel wedi archwilio'r rhestrau ar gyfer 2016/17 ac wedi canfod nad yw'r un prif gyngor wedi cyflwyno taliadau gwahaniaethol mewn cabinetau nac i gadeiryddion pwyllgorau.

   Ar gyfer aelodau o weithrediaethau:
   - Mae 20 cyngor wedi talu ar lefel 1
   - Mae 2 gyngor wedi talu ar lefel 2

Ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau:
- Mae 20 cyngor wedi talu ar lefel 1
- Mae 2 gyngor wedi talu ar lefel 2

Gan mai dim ond am un flwyddyn y mae'r drefn hon wedi bodoli mae'r Panel yn cadw'r cyfleuster hwn ar gyfer hyblygrwydd i adlewyrchu amrywiadau yn y lefelau cyfrifoldeb yn y gydnabyddiaeth ariannol a gymhwysir i uwch swyddi penodol. Dylai'r cynghorau newydd etholedig ystyried defnyddio'r hyblygrwydd hwn wrth benderfynu ar eu strwythurau cabinet a phwyllgorau.

10. Ers i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau mewn perthynas ag Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau, mae'r Panel wedi cynnwys materion cydnabyddiaeth ariannol sy'n gysylltiedig ag absenoldebau o'r fath yn ei fframwaith. Rydym wedi cael sylwadau nad yw'r un trefniadau'n berthnasol i absenoldebau a achoswyd gan salwch hirdymor. Rydym wedi cydnabod hyn ac wedi cynnwys darpariaeth yn yr Adroddiad hwn i ganiatáu i brif gynghorau, APCau ac ATAau wneud trefniadau ar gyfer achosion o salwch hirdymor gan ddeiliaid uwch gyflogau.

11. Mae'r Panel yn parhau i bryderu ynghylch yr amrywiadau a'r anghysondeb o ran y cymorth a roddir i aelodau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Rydym wedi penderfynu dro ar ôl tro y dylid rhoi cymorth o'r fath heb gost i'r aelod etholedig unigol, a bod yn rhaid i gost y cymorth fod yn briodol, yn rhesymol a chael ei datgan yn gyhoeddus. Ni ddylai awdurdodau ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth hynny y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw hyn wedi cael ei weithredu'n llawn gan rai awdurdodau. Bwriedir cynnal dadansoddiad manwl o'r Rhestrau ar gyfer 2016/17 a'r wybodaeth a gyhoeddwyd o'r flwyddyn flaenorol a mynd ar ôl unrhyw faterion o ran diffyg cydymffurfio yn unigol.

12. Mae'r Panel yn disgwyl bod y cymorth a roddir yn ystyried anghenion penodol aelodau unigol. Mae swyddogaethau Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys gofyniad i adolygu'r lefel o gymorth a roddir i aelodau i gyflawni'u dyletswyddau a byddai'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn gynnal adolygiadau a chyflwyno cynigion gerbron y cyngor llawn o ran yr hyn yr ystyrir ei fod yn rhesymol. Dywedodd aelodau o Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd yn ein cyfarfodydd gyda hwy y byddai o fudd i awdurdodau fod yn rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth a gosod meincnodau ar gyfer lefelau'r ddarpariaeth ac arfer da o ran sut y mae aelodau'n cefnogi gwaith aelodau etholedig. Nid ydym yn ymwybodol a fu cynnydd o ran gweithredu'r cynnig hwn.

13. Mae'r Panel yn nodi nad yw aelodau wastad wedi defnyddio'r cymorth sydd wedi bod yn cael ei roi trwy fframwaith cydnabyddiaeth ariannol y Panel, yn enwedig mewn perthynas â'r lwfans gofal. Mae rhai aelodau'n gyndyn o hawlio'r cyfan y mae ganddynt hawl i'w hawlio i gefnogi eu gwaith, yn enwedig y lwfans gofal, oherwydd pryderon ynghylch y cyhoeddusrwydd anffafriol y gall hyn ei ddenu. Dylai Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd gymryd

camau i annog aelodau cymwys i hawlio'r lwfansau hyn a hwyluso'r broses o'u hawlio.

14. Roedd Lwfansau Gofal ar gael i aelodau etholedig prif gynghorau flynyddoedd lawer cyn ffurfio'r Panel. Rydym wedi estyn y ddarpariaeth i bob awdurdod perthnasol. Nifer isel iawn sydd wedi manteisio ar y ddarpariaeth ar draws yr holl sefydliadau sydd o fewn cylch gwaith y Panel. Rydym yn credu mai'r ffactor pwysig sydd wedi cyfrannu at y nifer isel hwn yw pryderon ynghylch cyhoeddusrwydd anffafriol i aelodau unigol. Felly rydym wedi penderfynu caniatáu dulliau dewisol o gyhoeddi costau gofal. Rydym hefyd wedi penderfynu defnyddio'r term "ad-daliad ar gyfer costau gofal" yn lle lwfans gofal, o ganlyniad i drafod gydag arweinwyr CLILC.

15. Mae'r Panel yn ail-bwysleisio'r angen i bawb sy'n gysylltiedig â hyn annog aelodau unigol i gael gafael ar yr holl gymorth sydd ar gael, gan gynnwys gyda chostau gofal, sydd bellach yn cynnwys darpariaeth ar gyfer aelodau y mae arnynt hwy eu hunain angen cefnogaeth a chymorth personol.

16. Mae'r Panel wedi parhau i gyfrannu lle bynnag y bo'n bosibl at wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru trwy ei benderfyniadau. Er mwyn cymryd cam pellach yn hyn o beth mae'r Panel wedi cynhyrchu taflen ar gyfer darpar ymgeiswyr ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau o gynghorau. Rydym yn ymwybodol ac yn falch bod sawl prif gyngor wedi ychwanegu'r daflen hon at eu gwefannau.

17. Mae adran 153 o'r Mesur yn rhoi pŵer i'r Panel i fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau perthnasol â'i ofynion. Er y bu gostyngiad sylweddol o ran diffyg cydymffurfio yn y rhan fwyaf o awdurdodau. Mae'r Panel yn credu bod modd gwella cysondeb trwy ddefnydd o pro forma safonol a bydd yn ymgynghori ar hyn yn gynnar yn yr haf 2017.

18. Fodd bynnag, mae materion pwysig y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd gyda chynghorau tref a chymuned a bydd y Panel yn codi'r materion hyn gyda chynghorau unigol a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

19. Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb ychwanegol mewn perthynas â newidiadau i gyflogau prif swyddogion prif gynghorau mae'r Panel wedi ymdrin â nifer o geisiadau. Mae penderfyniadau'r Panel wedi'u hatodi yn Adran 15.

## Gweithredu'r Penderfyniadau

Bydd etholiadau prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned yn cael eu cynnal ar 4 Mai 2017. Mae Adran 26(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn pennu mai ar y 4ydd diwrnod yn dilyn etholiad bydd unigolion a oedd yn gynghorwyr cyn yr etholiad yn ymddeol a bydd aelodau sydd newydd eu hethol yn cymryd y swyddfa. Felly,  y dyddiadau y dylid rhoi'r penderfyniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad hwn mewn grym yw:

- Ar gyfer prif gynghorau:
    - Deiliaid cyflogau sylfaenol ac uwch - 8 Mai 2017, (ar yr amod bod yr aelod wedi llofnodi'r datganiad derbyn)
    - Cadeiryddion / Maer – mae cyflog dinesig yn daladwy pan fo'r cadeirydd / maer yn parhau yn ei swydd hyd nes y bydd olynydd yn cael ei benodi yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr awdurdod, sy'n dilyn yr etholiad[2]
- Ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol – o 1 Ebrill 2017
- Ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub – O ddyddiad Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod
- Ar gyfer cynghorau tref a chymuned – 8 Mai 2017 (ar yr amod bod yr aelod wedi llofnodi'r datganiad derbyn)

[2] Deddf Llywodraeth Leol 1972 Rhan 2 Adran 22(2)

# 1. Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau

### Cynnal ymddiriedaeth a hyder

1.1 Mae gan ddinasyddion yr hawl i ddisgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau lleol yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd trwy goleddu'r gwerthoedd a'r foeseg sy'n ymhlyg mewn gwasanaeth cyhoeddus o'r fath. Mae'r egwyddorion hyn yn tanategu'r cyfraniad y mae gwaith y Panel a'i Fframwaith yn ei wneud tuag at gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

### Symlrwydd

1.2 Mae'r fframwaith yn glir ac yn ddealladwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r Panel allu cyfleu ei benderfyniadau yn effeithiol i bawb yr effeithir arnynt gan ei waith neu sydd â diddordeb ynddo.

### Cydnabyddiaeth ariannol

1.3 Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliadau i aelodau o awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau . Ni ddylai lefel y gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i ymgymryd â'r gwaith na pharhau ag ef. Ni ddylai fod unrhyw ofyniad bod adnoddau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n cael eu hariannu o'r cyflog. Mae'r Fframwaith yn rhoi tâl ychwanegol i'r rhai y rhoddir mwy o gyfrifoldeb iddynt.

### Amrywiaeth

1.4 Caiff democratiaeth ei chryfhau pan fo aelodaeth o awdurdodau lleol yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Bydd y Panel wastad yn ystyried pa gyfraniad y gall ei fframwaith ei wneud i annog y rhai a dangynrychiolir yn sylweddol i gyfranogi ar lefel awdurdod lleol.

### Atebolrwydd

1.5 Mae gan drethdalwyr a dinasyddion yr hawl i gael gwerth am arian o arian cyhoeddus sydd wedi'i neilltuo i roi cydnabyddiaeth ariannol i'r rhai a etholir, a benodir, neu a gyfetholir i wasanaethu er budd y cyhoedd. Mae'r Panel yn disgwyl bod pob prif gyngor yn trefnu bod gwybodaeth am weithgareddau ei aelodau a chydnabyddiaeth ariannol a roddir iddynt ar gael yn rhwydd ac yn briodol.

### Tegwch

1.6 Bydd yn bosibl cymhwyso'r fframwaith yn gyson i aelodau pob awdurdod lleol sydd o fewn cylch gwaith y Panel fel modd i sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn fforddiadwy ac yn gyffredinol dderbyniol.

## Ansawdd

1.7 Mae'r Panel yn cydnabod bod y cymysgedd cymhleth o ddyletswyddau llywodraethu, craffu a rheoleiddio sydd ar aelodau yn golygu bod yn rhaid iddynt ymgysylltu â phroses o wella ansawdd yn barhaus. Mae'r Panel yn disgwyl i aelodau ymgymryd â'r cyfleoedd hyfforddi a datblygiad personol hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau y cânt gydnabyddiaeth ariannol amdanynt mewn modd priodol.

## Tryloywder

1.8 Mae sicrhau tryloywder cydnabyddiaeth ariannol aelodau er budd y cyhoedd. Mae rhai aelodau yn derbyn lefelau ychwanegol o gydnabyddiaeth ariannol am eu bod wedi'u hethol, neu eu penodi, i fwy nag un corff cyhoeddus. Mae'r fframwaith yn fodd i sicrhau bod gwybodaeth am yr holl gydnabyddiaeth ariannol y mae pob aelod yn ei chael ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

## Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion

1.9 Mae'r Panel yn cymhwyso'r egwyddorion hyn, sef tegwch, atebolrwydd a thryloywder, yn ei holl benderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r holl awdurdodau sydd o fewn ei gylch gwaith. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol pan fo'n ofynnol i'r Panel wneud argymhellion mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol i swyddogion cyflogedig yr awdurdodau hyn hefyd.

# 2. Tudalen Grynodeb yr Adroddiad Blynyddol

| Math o Daliad | Math o Awdurdod | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Prif Gynghorau | Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Awdurdodau Tân ac Achub | Cynghorau Tref a Chymuned |
| Cyflog Sylfaenol | tudalen 11 | tudalen 25 | tudalen 29 | Amherthnasol |
| Uwch Rolau | tudalen 11 | tudalen 25 | tudalen 29 | tudalen 39 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau | tudalen 12 | tudalen 26 | tudalen 29 | Amherthnasol |
| Grwpiau Gwrthbleidiau | tudalen 14 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Penaethiaid a Dirprwyon Dinesig | tudalen 15 | Amherthnasol | Amherthnasol | tudalen 40 |
| Aelodau Llywyddol | tudalen 17 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Milltiredd | tudalen 378 | tudalen 37 | tudalen 37 | tudalen 40 |
| Costau Teithio Eraill | tudalen 37 | tudalen 37 | tudalen 37 | Tudalen 41 |
| Costau Cynhaliaeth | tudalen 38 | tudalen 38 | tudalen 38 | tudalen 41 |
| Costau Gofal | tudalen 34 | tudalen 34 | tudalen 34 | tudalen 42 |
| Absenoldeb Teuluol | tudalen 24 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Absenoldeb Oherwydd Salwch | tudalen 35 | tudalen 35 | tudalen 35 | Amherthnasol |
| Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu | tudalen 21 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Pensiwn | tudalen 22 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Aelodau Cyfetholedig | tudalen 32 | tudalen 32 | tudalen 32 | Amherthnasol |
| Lwfansau Penodol neu Ychwanegol | tudalen 19 | tudalen 27 | tudalen 30 | Amherthnasol |
| Taliadau i Gynghorwyr Tref a Chymuned | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | tudalen 39 |
| Lwfans iawndal am golled ariannol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | tudalen 41 |
| Datganiad o Daliadau | tudalen 78 | tudalen 78 | tudalen 78 | tudalen 78 |
| Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol | Tudalen 76 | Tudalen 76 | Tudalen 76 | Tudalen 76 |
| Cyflogau Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion | Tudalen 44 | Amherthnasol | Tudalen 44 | Amherthnasol |

# 3. Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gynghorau: Cyflogau Sylfaenol, Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

### Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau

3.1 Er bod cyllid y sector cyhoeddus yn dal i fod dan bwysau, mae'r Panel o'r farn bod cyfiawnhad dros gynnydd bach yn y cyflog sylfaenol ac mae wedi penderfynu y bydd cynnydd o £100 (sy'n cyfateb i 0.75%) o wanwyn 2017 ymlaen i'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau o brif gynghorau. Bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar erydiad pellach lefelau cymharol o gydnabyddiaeth ariannol yn y cyflog sylfaenol a delir am y dyletswyddau y disgwylir i'r holl aelodau etholedig eu cyflawni.

**Penderfyniad 1: Bydd y cyflog sylfaenol yn 2017/18 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yn £13,400.**

**Nodiadau ar Benderfyniad 1:**

1. Nid yw'r elfen cyfrifoldeb cyflogau uwch yn cael ei gynyddu, ond bydd uwch deiliaid cyflog yn derbyn y codiad i'r cyflog sylfaenol.

2. Yn wreiddiol, penderfynodd y Panel (Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Rhagfyr 2009) y byddai taliad y cyflog sylfaenol yn cael ei gysoni ag enillion gros canolrifol yr holl weithwyr llawn amser sy'n byw yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). O gofio'r pwysau sydd ar wariant cyhoeddus, nid oedd yn bosibl cynnal y cysoniad hwn. Pe bai'r cysoniad hwn wedi parhau, byddai'r cyflog sylfaenol oddeutu £14,700 erbyn hyn. Tra yn yr amgylchiadau economaidd presennol nid yw'n bosibl i adfer y cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol ac enillion cyfartalog Cymru, bydd y Panel, yn y dyfodol, yn archwilio meincnodau posibl a fyddai'n briodol ar gyfer talu aelodau etholedig.

### Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gynghorau

3.2 Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ('y cap') yn parhau. Yn 2017/18, ni fydd uchafswm yr uwch gyflogau sy'n daladwy ym mhob prif gyngor yn cael ei newid a bydd fel yr hyn a nodir yn Nhabl 1.

**Tabl 1:** Nifer yr aelodau o gynghorau sy'n gymwys i gael uwch gyflog

| Cyngor | Nifer y cynghorwyr | Nifer yr uwch gyflogau |
|---|---|---|
| **Grŵp A** (poblogaethau dros 200,000) | | |
| Caerdydd | 75 | 19 |
| Rhondda Cynon Taf | 75 | 19 |
| Abertawe | 72 | 19 |
| **Grŵp B** (poblogaethau rhwng 100,000 a 200,000) | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 54 | 18 |
| Caerffili | 73 | 18 |
| Sir Gaerfyrddin | 74 | 18 |
| Conwy | 59 | 18 |
| Sir y Fflint | 70 | 18 |
| Gwynedd | 75 | 18 |
| Castell-nedd Port Talbot | 64 | 18 |
| Casnewydd | 50 | 18 |
| Sir Benfro | 60 | 18 |
| Powys | 73 | 18 |
| Bro Morgannwg | 47 | 18 |
| Wrecsam | 52 | 18 |
| **Grŵp C** (poblogaethau hyd at 100,000) | | |
| Blaenau Gwent | 42 | 17 |
| Ceredigion | 42 | 17 |
| Sir Ddinbych | 47 | 17 |
| Ynys Môn | 30 | 15 |
| Merthyr Tudful | 33 | 16 |
| Sir Fynwy | 43 | 17 |
| Torfaen | 44 | 17 |

**Taliadau i aelodau o'r Weithrediaeth, Cadeiryddion Pwyllgorau, ac Arweinydd yr Wrthblaid**

3.3 Nid yw'r Panel wedi newid ei penderfyniadau blaenorol ynglŷn â'r uwch gyflogau a delir i'r deiliaid swyddi hyn.

(i) Y Weithrediaeth:

Yn sgîl yr ymweliadau â'r holl brif gynghorau gan y Panel yn 2009 daeth i'r casgliad y dylid ystyried bod aelodau'r Weithrediaeth yn gweithio oriau sy'n cyfateb i amser llawn (hyd at 40 awr yr wythnos), ond nid naw tan bump o reidrwydd. Fodd bynnag, rydym wedi pwysleisio bod cydnabyddiaeth, wrth ddod i'r penderfyniad hwn, bod potensial ar gyfer 200 o aelodau o Weithrediaethau a bod hyn yn golygu y byddai amrywiaeth o drefniadau ac y byddai gan rai deiliad

portffolio fwy o gyfrifoldeb a llwyth gwaith nag eraill. Ond roedd hyn yn ddibynnol ar drefniadau cyfundrefnol penodol cabinetau pob awdurdod.

Mae llawer o gynghorau'n gweithredu gyda chabinet o 10, sef yr uchafswm statudol, mae eraill yn dewis bod â chabinetau llai ac felly mae ystod y portffolios unigol yn llawer mwy. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai fod yn bosibl i hyn gael ei adlewyrchu yn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Nid rôl y Panel yw penderfynu ar strwythur cabinetau awdurdodau lleol, felly mae'r penderfyniadau yn parhau i roi hyblygrwydd i bob cyngor sy newydd ei ethol benderfynu ar ystod briodol o bortffolios i ddiwallu anghenion lleol, gan gydnabod bod amrywiaeth anochel yn y lefel o gyfrifoldeb ac yn y llwyth gwaith.

Gellir talu i aelodau o'r weithrediaeth ar y naill neu'r llall o'r ddwy lefel isod ar gyfer uwch gyflogau:

<u>Lefel 1 -</u>
Grŵp A - £32,100
Grŵp B - £29,100
Grŵp C - £26,100

<u>Lefel 2 -</u>
Grŵp A - £28,900
Grŵp B - £26,200
Grŵp C - £23,500

Mater i awdurdodau unigol fydd penderfynu ynghylch gweithredu'r penderfyniadau hyn o fewn eu strwythurau cabinet penodol.

(ii) Cadeiryddion Pwyllgorau

Mae'r Panel yn dal i fod o'r farn nad yw poblogaeth yr awdurdod yn effeithio fel rheol ar y cyfrifoldeb a'r swyddogaeth sy'n gysylltiedig â chadeirio pwyllgor. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth bod cyfrifoldeb a llwyth gwaith penodol rhai cadeiryddion yn fwy nag eraill, ac mae hyn wedi bod yn bwnc trafod parhaus inni. Rydym ni o'r farn y dylid adlewyrchu hyn yn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol.

Lle telir cadeiryddion pwyllgorau, mae dwy lefel o gydnabyddiaeth ariannol:

Bydd cadeiryddion Lefel 1 yn cael cyflog o £22,100
Bydd cadeiryddion Lefel 2 yn cael cyflog o £20,100

Mater i awdurdodau unigol yw penderfynu ar ba gadeiryddion sy'n cael eu talu ac ar ba lefel er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldeb priodol sy'n gysylltiedig â'r swydd benodol.

**Y Bandiau Uwch Gyflog**

**Penderfyniad 2: Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd lefelau uwch gyflog yn 2017/18 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y nodir yn nhabl 2.**

**Tabl 2:** Cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau sy'n daladwy i aelodau o brif gynghorau

| **Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i'r holl aelodau etholedig) £13,400** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Grŵp A** (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe) | **Grŵp B** (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam) | **Grŵp C** (Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Ynys Môn) |
| **Uwch gyflogau (gan gynnwys cyflog sylfaenol)** | | | |
| **Band 1** | | | |
| Arweinydd | £53,100 | £48,100 | £43,100 |
| Dirprwy Arweinydd | £37,100 | £33,600 | £30,100 |
| **Band 2** | | | |
| Aelodau Gweithrediaeth Lefel 1 | £32,100 | £29,100 | £26,100 |
| Aelodau Gweithrediaeth Lefel 2 | £28,900 | £26,200 | £23,500 |
| **Band 3**<br>Cadeiryddion pwyllgorau<br>(os ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol): | Lefel 1 £22,100<br>Lefel 2 £20,100 | | |
| **Band 4**<br>Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf[3] | £22,100 | | |
| **Band 5**<br>Arweinwyr yr holl grwpiau gwleidyddol eraill | £17,100 | | |

**Nodiadau ar Dabl 2:**

a. Mae'r Panel yn ystyried mai'r swyddi arweinwyr ac aelodau gweithrediaeth (cyflogau Band 1 a 2 yn y drefn honno) sydd â'r atebolrwydd unigol mwyaf a bod 'maint y boblogaeth' yn dal i fod yn ffactor allweddol o ran dylanwadu ar

[3] Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf. Gweler Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Atodiad 2, Rhan 1(2) ar gyfer diffiniad o *"grŵp yr wrthblaid fwyaf"* a *"grŵp gwleidyddol arall"*

lefelau cyfrifoldeb ac felly mae'r defnydd o'r tri grŵp poblogaeth (A, B ac C) wedi cael ei gadw. Er gwybodaeth: Grŵp Poblogaeth A 200,000 a throsodd; Grŵp Poblogaeth B 100,001 i 199,999; Grŵp Poblogaeth C hyd at 100,000.

b. Ni chynigir unrhyw gynnydd ar gyfer uwch gyflogau ond bydd deiliaid swyddi'n cael y cynnydd yn y cyflog sylfaenol a delir i'r holl gynghorwyr.

c. Bydd cadeiryddion pwyllgorau'n cael tâl ar lefel Band 3, naill ai Lefel 1 neu 2 (i'w benderfynu gan yr awdurdod); er y gall awdurdod unigol benderfynu peidio â thalu i gadeiryddion penodol.

d. Mae'r Panel yn ymwybodol o'r pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar werth y swyddogaeth graffu ar gyfer democratiaeth leol ac mae wedi nodi bod 90 o gadeiryddion pwyllgorau craffu sy'n cael uwch gyflogau ar hyn o bryd. Mae'r Panel o'r farn bod hyn yn gydnabyddiaeth glir i bwysigrwydd y swyddogaeth hon.

e. Mae'r amod bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwrthblaid neu arweinydd unrhyw grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodaeth y cyngor cyn bod yn gymwys i gael uwch gyflog yn parhau'n ddigyfnewid.

f. Mae'r Panel wedi penderfynu bod yn rhaid i gyngor drefnu bod uwch gyflog ar gael i arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf.

g. Mae'r Panel wedi penderfynu bod yn rhaid talu uwch gyflog Band 5 i arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill os ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol.

Gweler Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Atodiad 2, Rhan 1(2) ar gyfer diffiniad o "*grŵp yr wrthblaid fwyaf*" a "*grŵp gwleidyddol arall*".

**Taliadau i Benaethiaid a Dirprwyon Dinesig (Cyflogau Dinesig)**

3.4 Mae'r Panel yn dal i fod o'r farn ei bod yn briodol i awdurdodau bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol sy'n adlewyrchu gweithgarwch a chyfrifoldeb penaethiaid a dirprwyon dinesig yn hytrach na'r boblogaeth leol. Mae'r Panel yn ymwybodol ond wedi'i synnu bod llawer o gynghorau wedi pennu cyflogau ar gyfer eu penaethiaid a dirprwyon sy'n cyd-daro â grwpiau poblogaeth yn hytrach na rhai sydd o reidrwydd yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau penodol sy'n gysylltiedig â'r rolau. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'n ofynnol cymhwyso'r tri grŵp sefydledig o brif gynghorau a gyfrifwyd ar sail poblogaeth mewn perthynas â thaliadau i benaethiaid a dirprwyon dinesig.

3.5 Mae'r Panel wedi pennu tair lefel o gyflog dinesig y gellir eu talu – uwch, canolig ac is. Mae'n rhaid i bob awdurdod benderfynu pa lefel (os o gwbl) a fydd yn cael ei thalu ar gyfer pob un o'r rolau hyn yn ôl ffactorau lleol. Er enghraifft, gellid talu i bennaeth dinesig cyngor bach ar y gyfradd uwch, tra gellid talu i bennaeth dinesig cyngor mawr ar y gyfradd isaf. Gallai cyfraddau

taliadau i ddirprwy benaethiaid dinesig amrywio yn yr un modd. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl talu i benaethiaid dinesig a'u dirprwyon yn yr un awdurdod ar wahanol lefelau.

3.6 Gall cyngor benderfynu peidio â chymhwyso unrhyw gyflog dinesig i swyddi pennaeth dinesig a/neu ddirprwy bennaeth dinesig.

**Penderfyniad 3: Mae'r Panel wedi penderfynu bod cyflogau dinesig (lle y'u telir) ar y lefelau canlynol yn daladwy (Tabl 3) ac y byddant yn cael eu cymhwyso gan brif gynghorau yn ôl yr hyn sy'n briodol ym marn pob prif gyngor unigol, gan ystyried llwythi gwaith a chyfrifoldebau disgwyliedig.**

**Tabl 3:** Bydd cyflogau dinesig (lle y'u telir) yn daladwy fel a ganlyn i aelodau prif Gynghorau

| **Cydnabyddiaeth ariannol i benaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig** *(gan gynnwys cyflogau sylfaenol)* | | |
|---|---|---|
| Lefel Cyfrifoldeb | Penaethiaid dinesig | Dirprwy benaethiaid dinesig |
| Lefel 1 | £24,100 | £18,100 |
| Lefel 2 | £21,600 | £16,100 |
| Lefel 3 | £19,100 | £14,100 |

**Nodiadau ar Dabl 3:**

a. Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap (ac eithrio Cynghorau Ynys Môn a Merthyr Tudful).

b. Mae gofyniad y Panel na ddylai aelodau orfod talu am gost y cymorth (gweler penderfyniad 7) y mae ei angen i gyflawni eu dyletswyddau yn berthnasol yn achos penaethiaid dinesig hefyd. Mae'r Panel yn cydnabod yr ystod o wahanol fathau o ddarpariaeth a wneir ar gyfer penaethiaid dinesig o ran cludiant, cymorth ysgrifenyddol, rhoddion elusennol a dillad. Nid yw'r Panel o'r farn ei bod yn briodol i gynghorau ddisgwyl na'i gwneud yn ofynnol bod cyfraniadau tuag at unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn cael eu talu o uwch gyflogau net a delir i benaethiaid dinesig.

3.7. Mae'r swyddi dinesig hyn yn uwch swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor i bob math o sefydliadau, ac mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd enghreifftio a hyrwyddo dinasyddiaeth dda.

3.8. Yn aml, mae dirprwy benaethiaid dinesig yn 'ddarpar benaethiaid dinesig' ar

gyfer y flwyddyn ganlynol, a hwythau'n 'ddysgu eu crefft' trwy gymryd rhan mewn amserlen ar wahân o ddigwyddiadau, yn ogystal â dirprwyo ar gyfer yr arweinydd dinesig.

3.9. Mae'n dal yn wir mai bwriad y lwfans dinesig fel y'i diffinnir gan adrannau 22(5) a 24(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yw galluogi cyngor i dalu gyflog i gadeirydd ac is-gadeirydd cyngor sy'n addas at ddibenion talu treuliau'r swyddi hynny ym marn y cyngor.

3.10. Mewn sawl achos, mae penaethiaid dinesig yn cael cymorth ysgrifenyddol ac yn cael cludiant ar gyfer dyletswyddau swyddogol, ac yn gallu manteisio ar gyllideb lletygarwch ar wahân sy'n cael ei rheoli gan swyddogion y cyngor.

3.11 Mae lefel y cymorth a roddir, y gwariant ariannol personol a'r lefel o weithgarwch yn ystod y flwyddyn yn y swydd yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau ac nid yw maint yr awdurdod o anghenraid yn ddangosydd dibynadwy o'r ymrwymiad sy'n ofynnol neu a roddir gan benaethiaid dinesig.

3.12 Mae gan yr holl brif gynghorau nifer o gynghorau cymuned yn eu hardaloedd, ac mae gan lawer gynghorau tref yn eu hardaloedd hefyd. Lle mae gan gyngor cymuned bennaeth dinesig arbennig o weithgar, gall hyn gael rhywfaint o effaith ar lwyth gwaith pennaeth dinesig y prif gyngor.

3.13 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn galluogi cynghorau i benodi aelod llywyddol sy'n gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y cyngor cyfan. Lle penodir un, bydd gan y pennaeth dinesig lai o gyfrifoldebau o ganlyniad i hynny.

**Taliadau i Aelodau Llywyddol**

**Penderfyniad 4: Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yn rhaid i aelod llywyddol, os penodwyd un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael uwch gyflog ar Lefel 1 ym Mand 3. Bydd y swydd hon yn cyfrif tuag at y cap.**

**Penderfyniad 5: Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn cael cydnabyddiaeth ariannol.**

**Y ffactorau allweddol sy'n sail i benderfyniadau'r Panel**:

3.14 Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw'r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y swyddogaethau craffu, rheoleiddio neu swyddogaethau cysylltiedig sy'n rhan o lywodraethu lleol am gyfnod sy'n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad di-dâl at wasanaeth cyhoeddus.

3.15 Mae'n rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, oni bai bod unigolyn wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod ei fod wedi dewis yn annibynnol ac yn wirfoddol ei fod am ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae'n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau yn cael eu rhoi dan bwysau i hepgor rhai o'r cyflogau yn cael ei osgoi. Bydd y Panel yn ymgynghori ar pro forma ar gyfer cyhoeddi'r Datganiad o Daliadau a Wnaed a fydd yn cynnwys yr union swm a dalwyd i bob aelod.

Rhaid cymhwyso'r canlynol:

a) Ni all aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un uwch swydd o fewn ei awdurdod ef neu hi (ond gweler adran 4 ar Gydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu).

b) Ni ellir talu uwch gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.

c) Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch gyflog a chyflog dinesig a delir.

d) Os yw cyngor yn dewis bod â mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithrediaeth eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch gyflog aelodau gweithrediaeth eraill er mwyn cyfrifo'r uwch gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

e) Ni all aelodau sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi iddo.

**Cefnogi gwaith aelodau etholedig awdurdodau lleol**

3.16 Mae'r Panel wedi parhau â'i raglen o gyfarfodydd gyda Chadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr i aelodau a swyddogion drafod yr amrywiadau sy'n digwydd a rhannu a deall y manteision a geir trwy fynd ati'n briodol i gefnogi gallu aelodau i gyflawni eu dyletswyddau sylfaenol yn effeithiol. Mae Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd wedi awgrymu y byddai o fudd i awdurdodau fod yn rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth a gosod meincnodau ar gyfer lefelau'r ddarpariaeth ac arfer da o ran sut y mae aelodau'n cefnogi gwaith aelodau etholedig. Mae'r Panel yn rhannu'r farn hon.

3.17 Mae'r Panel yn disgwyl bod y cymorth a roddir yn ystyried anghenion penodol aelodau unigol. Mae swyddogaethau Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys gofyniad i adolygu'r lefel o gymorth a roddir i aelodau i gyflawni'u dyletswyddau a byddai'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau

hyn gynnal adolygiadau a chyflwyno cynigion gerbron y cyngor llawn o ran yr hyn yr ystyrir ei fod yn rhesymol.

3.18 Mae’r Panel o’r farn ei bod yn angenrheidiol i bob aelod etholedig gael defnydd hwylus wasanaethau ffôn ac e-bost a chael mynediad electronig at wybodaeth briodol trwy gyswllt â’r Rhyngrwyd. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth angenrheidiol i aelod fod mewn cysylltiad priodol â gwasanaethau’r cyngor a chadw cysylltiad â’r rhai y mae’n eu cynrychioli. Mae llawer o gynghorau yng Nghymru wedi ymrwymo i ‘weithio’n ddi-bapur’ a heb fynediad electronig o’r fath, byddai aelod yn wynebu cyfyngiadau sylweddol o ran ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau. Fel y dynodwyd uchod, cyfrifoldeb pob cyngor trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw rhoi cymorth yn seiliedig ar asesiad o anghenion ei aelodau. Lle ceir anghenion ychwanegol neu faterion sy’n ymwneud ag anabledd, neu lle nodwyd fod gofynion penodol o ran hyfforddiant, bydd angen i bob awdurdod asesu unrhyw ofynion penodol sydd gan aelodau unigol. Ni fyddai’n briodol i gyfleusterau y mae ar aelodau eu hangen fod ar gael yn swyddfeydd y cyngor yn ystod oriau swyddfa yn unig.

Ar gyfer aelodau cyfetholedig dylai'r gefnogaeth fod yn briodol ac yn gymesur.

**Penderfyniad 6: Mae’r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau’n cael cymaint o gymorth ag sy’n angenrheidiol i’w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol. Dylid darparu cyfleusterau ffôn ac e-bost digonol i bob aelod etholedig, a mynediad electronig at wybodaeth briodol.**

**Penderfyniad 7: Mae’r Panel wedi penderfynu y dylid rhoi cymorth o’r fath heb gostau i’r aelod unigol. Ni ddylai’r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth y mae’r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.**

## Uwch gyflogau penodol neu ychwanegol

3.19 Mae’r Panel wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd trwy roi darpariaeth i awdurdodau wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i’r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol, neu na ellid gwneud lle iddynt o fewn uchafswm uwch gyflogau’r awdurdod. Os yw'r ychwanegiad arfaethedig yn cael ei gymeradwyo ac yn arwain at y cyngor yn mynd heibio ei gap, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y gymeradwyaeth (ac eithrio Cynghorau Merthyr Tudful ac Ynys Môn - gweler troednodyn 4).

**Penderfyniad 8: Mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.**

3.20 Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch y broses ymgeisio ym mis Ebrill 2014 ac roeddent yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

a. Ni all cyfanswm yr uwch gyflogau fod yn uwch na hanner cant y cant[4] o'r aelodaeth.

b. Bydd yn rhaid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd (ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn) cyn eu cyflwyno i'r Panel.

c. Mae'n rhaid bod tystiolaeth glir bod y swydd/swyddi yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o'r rôl, swyddogaeth a hyd.

d. Bydd yn rhaid i bob cais ddynodi'r amseriad ar gyfer ystyried adolygiad o'r rôl gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

**Mae penderfyniadau'r Panel ynghylch Teithio a Chynhaliaeth, Ad-dalu costau gofal ac Absenoldeb Teuluol bellach wedi'u nodi mewn adrannau ar wahân o'r Adroddiad Blynyddol hwn.**

[4] Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Adran 142 (5) Ni chaiff y gyfran a bennir gan y Panel yn unol ag is-adran (4) fod yn fwy na hanner cant y cant oni fydd cydsyniad Gweinidogion Cymru wedi ei sicrhau.

# 4. Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu

4.1. Mae'r Panel wedi nodi'r trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gadeiryddion Cydbwyllgorau ac Is-bwyllgorau i Gydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu[5]. Mae'r taliadau'n gyson â'r taliadau i gadeiryddion pwyllgorau prif gynghorau a nodir yn Adran 3 (Lefel 2).

Mae'r penderfyniadau canlynol yn gymwys:

**Penderfyniad 9: Mae cadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i gael cyflog sy'n gyfwerth â'r rhan o uwch gyflog ar Lefel 2 ym Mand 3 sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd pwyllgor prif awdurdod (£6,700).**

**Penderfyniad 10: Mewn achosion lle mae'r cadeirydd eisoes yn cael uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad yn £3,350.**

**Penderfyniad 11: Mae cadeirydd is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i gael cyflog o £1,675.**

**Penderfyniad 12: Mewn achosion lle mae cadeirydd yr is-bwyllgor eisoes yn cael uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad yn £837.**

**Penderfyniad 13: Bydd taliadau i gadeiryddion is-bwyllgorau gorchwyl a gorffen ar sail pro rata tra pery'r dasg.**

**Penderfyniad 14: Mae taliadau a wneir i gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu gadeirydd is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o aelodaeth yr awdurdod sy'n gymwys i gael uwch gyflog. Dylid nodi fod y terfyn statudol o ran dim mwy na 50% o aelodaeth cyngor yn cael uwch gyflog yn gymwys (Adran 142(5) o'r Mesur).**

**Penderfyniad 15: Nid yw dirprwy gadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i gael taliad.**

**Penderfyniad 16: Nid yw aelodau cyfetholedig o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgor yn gymwys i gael ffi aelod cyfetholedig, oni bai eu bod wedi'u penodi gan awdurdod o dan Adran 144(5) o'r Mesur.**

4.2. Nid yw cydnabyddiaeth ariannol cadeiryddion Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu (neu is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu) wedi'i rhagnodi a mater i'r cynghorau cyfansoddol fydd penderfynu a fydd tâl am gyflawni swydd o'r fath. Ond os telir uwch cyflog, rhaid iddo fod ar y lefel a nodir yn adran 4 o'r adroddiad hwn.

[5] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1050/contents/made/welsh

# 5. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gynghorau

5.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“Y Mesur”) yn rhoi pŵer i’r Panel wneud penderfyniadau am hawliau pensiwn ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau.

**Penderfyniad 17: Bydd yr hawl i ymuno â’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gynghorau.**

## 6. Hawl i Absenoldeb Teuluol

Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau prif awdurdodau.

6.1 Cafodd y Rheoliadau mewn perthynas ag Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2013[6] ac yn cwmpasu absenoldebau o ddyletswyddau swyddogol ar gyfer rhesymau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu, a rhieniol.

6.2. Rhoddodd y Panel ystyriaeth i'r goblygiadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o'r fath y rhoddir absenoldeb iddynt dal delerau Rheoliadau Llywodraeth Cymru a chaiff penderfyniadau'r Panel eu nodi isod.

**Penderfyniad 18: Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol dan y rheoliadau ni waeth beth oedd ei hanes presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.**

**Penderfyniad 19: Pan fo deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn dal i gael y cyflog tra pery'r absenoldeb.**

**Penderfyniad 20: Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol ai peidio. Bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo ar ran deiliad uwch gyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael uwch gyflog, os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.**

**Penderfyniad 21: Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch gyflogau sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod nifer yr uwch gyflogau'n uwch na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru dan amgylchiadau o'r fath.**

**Penderfyniad 22: Pan fo Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol, mae'n rhaid hysbysu'r Panel, a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y trefniant dirprwyo.**

**Penderfyniad 23: Mae'n rhaid diwygio rhestr cydnabyddiaeth ariannol y Cyngor i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol.**

[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2901/pdfs/wsi_20132901_mi.pdf

# 7. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

**Strwythur Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**

7.1 Cafodd y 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru – Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri; eu ffurfio i warchod tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden ar gyfer y cyhoedd. Deddf yr Amgylchedd 1995 a arweiniodd at greu'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) cyfatebol. Wrth reoli'r Parc Cenedlaethol, mae gan yr Awdurdod 3 phrif ddiben:

- gwarchod harddwch naturiol y Parc;
- helpu ymwelwyr i'w fwynhau a'i ddeall; a
- meithrin lles pobl leol.

7.2 Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol bwyllgor o Aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y Prif Gynghorau o fewn ardal y Parc Cenedlaethol neu'n aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y Cyngor eu trin yn gyfartal o ran cydnabyddiaeth ariannol.

7.3 Caiff strwythur y Pwyllgor Aelodau ym mhob un o'r 3 pharc cenedlaethol ei nodi yn Nhabl 4.

**Tabl 4: Aelodaeth o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru**

| **Awdurdod Parc Cenedlaethol** | **Cyfan-swm Aelod-aeth** | **Aelodau a Enwebwyd gan Brif Gynghorau** | **Aelodau a Benodwyd gan Lywodraeth Cymru** |
|---|---|---|---|
| **Bannau Brycheiniog** | 24 | 16:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 1<br>Cyngor Sir Gaerfyrddin – 2<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – 1<br>Cyngor Sir Fynwy – 2<br>Cyngor Sir Powys – 8<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - 1<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - 1 | 8 |
| **Arfordir Penfro** | 18 | 12:<br>Cyngor Sir Penfro - 12 | 6 |
| **Eryri** | 18 | 12:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 3<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd – 9 | 6 |

7.4 Hefyd mae gan Bwyllgorau Safonau APCau aelodau Cyfetholedig Annibynnol y mae eu cydnabyddiaeth ariannol wedi'i chynnwys yn y fframwaith fel y nodir yn Adran 9.

7.5 Wrth ystyried cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o APCau, mae'r Panel wedi seilio'i benderfyniadau ar y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae APCau yn rheoli eu gwaith trwy gyfarfodydd awdurdod ffurfiol, pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae gan bob un Bwyllgor Datblygu/ Rheoli/ Cynllunio ac mae pwyllgorau eraill yn cynnwys Perfformiad ac Adnoddau ac Archwilio a Chraffu. Mae aelodau cyffredin o awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aelodau o un pwyllgor o leiaf, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd a phaneli arolygu.

- Mae disgwyl i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu.

- Mae gan gadeirydd APC rôl arwain a dylanwadu yn yr awdurdod, rôl gynrychiadol sy'n debyg mewn rhai ffyrdd i rôl pennaeth dinesig a lefel uchel o atebolrwydd. Nid dim ond arweinydd yr Awdurdod yw'r cadeirydd, ond y cadeirydd hefyd yw wyneb cyhoeddus y parc cenedlaethol dan sylw a'r cysylltiad â'r Gweinidog ac ACau y mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda hwy. Mae'r rôl yn galw am lawer o ymrwymiad ac amser.

**Cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau**

7.6 Yn flaenorol mae'r Panel wedi penderfynu y dylai rôl aelodau cyffredin o APC gael ei chysoni â chyflog sylfaenol aelod o brif gyngor a bod yr ymrwymiad amser sy'n ofynnol yn gyfanswm tybiannol o 42 diwrnod y flwyddyn. Dyma yw'r sail i benderfyniadau'r Panel o hyd.

7.7 Er bod cyllid y sector cyhoeddus yn dal i fod dan bwysau, mae'r Panel o'r farn bod cyfiawnhad dros gynnydd bach yn y cyflog sylfaenol ac mae wedi penderfynu y bydd cynnydd o £100 (sy'n cyfateb i 0.75%) o 1 Ebrill 2017 ymlaen i'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau o brif gynghorau. Bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar erydiad pellach lefelau cymharol o gydnabyddiaeth ariannol yn y cyflog sylfaenol a delir am y dyletswyddau y disgwylir i aelodau eu cyflawni.

7.8 Felly, ceir cynnydd cyfatebol o £25 yn y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau o APCau o 1 Ebrill 2017.

7.9 Mae'r Panel hefyd wedi penderfynu'n flaenorol y dylai cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd APC fod yn gyson â'r rhan o uwch gyflog ar Lefel 1 ym Mand 3 a delir i gadeirydd pwyllgor prif gyngor.

7.10 Yn 2014, darparodd y Panel hyblygrwydd lleol fel bod APC yn gallu penderfynu ar ba un o ddwy lefel y gellir rhoi cydnabyddiaeth ariannol i rolau dirprwy gadeirydd a hyd at 2 gadeirydd pwyllgor arall. Gall APC ddewis talu cyflog o £7,325 neu £6,025 i'w ddirprwy gadeirydd a/neu gadeiryddion pwyllgorau, yn gymesur â'r dyletswyddau sylweddol a pharhaus a fydd yn cael eu cyflawni mewn rôl benodol.

7.11 Yn ystod 2016, cyfarfu'r Panel ag aelodau a swyddogion o'r 3 APC. Cafwyd adborth yn ystod ymweliadau'r Panel am bwysigrwydd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd a'r effaith y gall diffyg presenoldeb ei chael. Mae'r Panel o blaid ystyried hyn ymhellach yn ystod 2016/17.

**Uwch Gyflogau Ychwanegol**

7.12 Cafwyd adborth hefyd yn ystod ymweliadau'r Panel ag APCau y gallai ei benderfyniad y gallai hyd at ddau o Gadeiryddion Pwyllgorau APC gael uwch gyflog fod yn rhwystr i APCau o ran cyflawni eu gofynion llywodraethu.

7.13 Mae'r Panel yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i brif gynghorau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. Mae'r Panel yn estynnu'r hyblygrwydd hwn i APCau fel y adlewyrchir yn yr egwyddorion canlynol:

a. Bydd yn rhaid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd (ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn) cyn eu cyflwyno i'r Panel.
b. Mae'n rhaid bod tystiolaeth glir bod y swydd/swyddi yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o'r rôl, swyddogaeth a hyd.
c. Bydd yn rhaid i bob cais ddynodi'r amseriad ar gyfer ystyried adolygiad o'r rôl gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

7.14 Mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

**Penderfyniad 24: Dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fod yn £3,625**

**Penderfyniad 25: Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd APC fod yn £12,325**

**Penderfyniad 26: Gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor APC le ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus. Gellir talu'r cyflog hwn ar y naill neu'r llall o'r lefelau canlynol, yn ôl yr hyn a bennir gan yr awdurdod i adlewyrchu'r cyfrifoldeb priodol:**

**£6,025 neu £7,325**

**Penderfyniad 27: Mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer APCau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.**

**Penderfyniad 28: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan APC.**

**Penderfyniad 29: Telir uwch gyflog APC gan gynnwys cyflog sylfaenol yr APC ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus**

**Penderfyniad 30: Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC arall y maent wedi'u penodi iddo.**

**Mae penderfyniadau'r Panel ynghylch Teithio a Chynhaliaeth, Ad-dalu costau gofal ac Absenoldeb Teuluol bellach wedi'u nodi mewn adrannau ar wahân o'r Adroddiad Blynyddol hwn.**

# 8. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

## Strwythur Awdurdodau Tân ac Achub

8.1 Cafodd y 3 Awdurdod Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru: Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru eu ffurfio fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996.

8.2 Mae ATAau yn cynnwys Aelodau etholedig a enwebwyd gan y Prif Gynghorau yn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub.

8.3 Caiff strwythur pob un o'r 3 ATA ei nodi yn Nhabl 5

**Tabl 5: Aelodaeth o Awdurdodau Tân ac Achub**

| Enw'r Awdurdod Tân ac Achub | Nifer yr Aelodau a enwebwyd gan Awdurdodau Lleol |
|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 25:<br>Cyngor Sir Gaerfyrddin – 5<br>Cyngor Sir Ceredigion – 2<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – 4<br>Cyngor Sir Penfro – 3<br>Cyngor Sir Powys – 4<br>Cyngor Dinas a Sir Abertawe - 7 |
| Gogledd Cymru | 28:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 5<br>Cyngor Sir Ddinbych – 4<br>Cyngor Sir y Fflint – 6<br>Cyngor Gwynedd – 5<br>Cyngor Sir Ynys Môn – 3<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – 5 |
| De Cymru | 24:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr– 2<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 1<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 3<br>Cyngor Dinas Caerdydd – 5<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – 1<br>Cyngor Sir Fynwy – 2<br>Cyngor Dinas Casnewydd - 2<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - 4<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 2<br>Cyngor Bro Morgannwg -2 |

8.4 Hefyd mae gan Bwyllgorau Safonau ATAau aelodau cyfetholedig annibynnol y mae eu cydnabyddiaeth ariannol wedi'i chynnwys yn y fframwaith fel y nodir yn Adran 9.

8.5 Wrth ystyried cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o ATAau, mae'r Panel wedi seilio'i benderfyniadau ar y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae gan y cadeirydd rôl arwain a dylanwadu yn yr awdurdod, a lefel uchel o atebolrwydd, yn enwedig wrth i faterion dadleuol godi sy'n ymwneud â'r gwasanaeth brys. Yn ogystal â chyfarfodydd yr awdurdod tân, mae gan bob ATA bwyllgorau sy'n cynnwys, mewn gwahanol gyfuniadau; archwilio, rheoli perfformiad, craffu, adnoddau dynol, rheoli adnoddau yn ogystal â grwpiau gorchwyl a gorffen a phaneli disgyblu. Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd ffurfiol yr awdurdod a'r pwyllgorau, mae aelodau yn cael eu hannog i ymgymryd â rôl ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys ymweld â gorsafoedd tân.

- Mae ethos hyfforddi cryf mewn ATAau. Disgwylir i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Mae rhaglenni sefydlu ar gael, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar gyfer apeliadau a gwrandawiadau disgyblu.

- Ychwanegir sesiynau hyfforddi'n aml at gyfarfodydd awdurdod i sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch.

**Cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau**

8.6 Yn flaenorol mae'r Panel wedi penderfynu y dylai rôl aelodau cyffredin o APC gael ei chysoni â chyflog sylfaenol aelod o brif gyngor a bod yr ymrwymiad amser sy'n ofynnol yn gyfanswm tybiannol o 20 diwrnod y flwyddyn. Dyma yw'r sail i benderfyniadau'r Panel o hyd.

8.7 Er bod cyllid y sector cyhoeddus yn dal i fod dan bwysau, mae'r Panel o'r farn bod cyfiawnhad dros gynnydd bach mewn cyflog sylfaenol blynyddol aelodau etholedig ac mae wedi penderfynu y bydd cynnydd o £100 (sy'n cyfateb i 0.75%) o ddyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod i'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau o brif gynghorau. Bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar erydiad pellach lefelau cymharol o gydnabyddiaeth ariannol yn y cyflog sylfaenol a delir am y dyletswyddau y disgwylir i aelodau eu cyflawni.

8.8 Felly, ceir cynnydd cyfatebol o £15 yn y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau o ATAau o ddyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

8.9 Penderfynodd y Panel y dylai cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd ATA fod yn gyson â'r rhan o uwch gyflog ar Lefel 1 ym Mand 3 a delir i gadeirydd pwyllgor prif gyngor.

8.10 Penderfynodd y Panel y bydd cydnabyddiaeth ariannol i ddirprwy gadeirydd ATA yn cael ei chysoni â'r uwch gyflog ym Mand 5 lle ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.

8.11 Mae'r Panel wedi penderfynu y gellir rhoi cydnabyddiaeth ariannol i hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA lle ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.

8.12 Yn ystod 2016, cyfarfu'r Panel ag aelodau a swyddogion o'r 3 ATA. Cafwyd adborth am bwysigrwydd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd a'r effaith y

gall diffyg presenoldeb ei chael. Mae’r Panel o blaid ystyried hyn ymhellach yn ystod 2016/17.

### Uwch Gyflogau Ychwanegol

8.13 Mae’r Panel wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd i brif gynghorau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i’r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. Mae’r Panel yn estynnu’r hyn i ATAau fel y adlewyrchir yn yr egwyddorion canlynol:

a. Bydd yn rhaid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd (ni ellir dirprwyo’r cyfrifoldeb hwn) cyn eu cyflwyno i’r Panel.
b. Mae’n rhaid bod tystiolaeth glir bod y swydd/swyddi yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o’r rôl, swyddogaeth a hyd.
c. Bydd yn rhaid i bob cais ddynodi’r amseriad ar gyfer ystyried adolygiad o’r rôl gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

### Byrddau Pensiynau Lleol

8.14 Mae'r Panel wedi ystyried ceisiadau gan ATAau i'w galluogi i dalu cyflogau i gadeiryddion byrddau pensiynau lleol a sefydlwyd o dan Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. Mae'r Rheoliadau hynny eisoes yn rhoi ATAau’r pŵer i benderfynu sut mae byrddau pensiwn lleol yn gweithio ac i dalu’r Cadeirydd a'r Aelodau os ydynt yn dymuno. Felly nid yw'n briodol ar gyfer y Panel i wneud penderfyniad yn grymuso ATAau i dalu cyflogau i gadeiryddion byrddau pensiynau lleol. Ni ellir defnyddio uwch gyflogau ym mhenderfyniad 33 neu 34 ar gyfer y rôl hwn yn unig.

8.15 Mae’r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

**Penderfyniad 31: Dylai’r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fod yn £1,715**

**Penderfyniad 32: Dylai’r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fod yn £10,415.**

**Penderfyniad 33: Gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA le ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus. Dylid talu hwn ar lefel o £5,415.**

**Penderfyniad 34: Mae’r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar**

**gyfer ATAau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol.**

**Penderfyniad 35: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan ATA.**

**Penderfyniad 36: Telir uwch gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus**

**Penderfyniad 37: Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo.**

**Mae penderfyniadau'r Panel ynghylch Teithio a Chynhaliaeth, Ad-dalu costau gofal ac Absenoldeb Teuluol bellach wedi'u nodi mewn adrannau ar wahân o'r Adroddiad Blynyddol hwn.**

# 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub[7]

9.1 Mae'r Panel wedi penderfynu bod ffi dyddiol/am hanner diwrnod yn ddull priodol o gydnabod y rôl bwysig a gyflawnir gan aelodau cyfetholedig awdurdodau sydd â hawliau pleidleisio (mae hyn yn cynnwys yr aelod o cyfetholedig o gyngor Tref neu Gymuned. Mae lefel y taliadau yn gyfwerth â'r cyfraddau dyddiol cyfredol ar
Mae'r Panel yn nodi na fu cynnydd yn lefelau'r taliadau hyn ar draws cyrff o'r fath ers 2010.

9.2 Gall prif gynghorau, APCau ac ATAau benderfynu ar uchafswm y dyddiau mewn unrhyw un flwyddyn y gall aelodau cyfetholedig gael tâl amdanynt.

9.3 Nodir y penderfyniadau isod:

**Penderfyniad 38: Mae'n rhaid i Brif Gynghorau, APCau ac ATAau dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (Tabl 4) (sydd â hawliau pleidleisio).**

**Tabl 6:** Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio)

| | |
|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £256<br>(4 awr a throsodd)<br>£128 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £226 ffi ddyddiol<br>(4 awr a throsodd)<br>£113 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio | £198<br>(4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |
| Cynghorwyr Tref a Chymuned sy'n eistedd ar bwyllgorau'r prif cyngor | £198<br>(4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |

**Penderfyniad 39: Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.**

**Penderfyniad 40: Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr**

[7] Nid yw'r adran hon yn berthnasol i aelodau cyfetholedig cynghorau tref a chymuned.

**hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).**

**Penderfyniad 41: Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.**

**Penderfyniad 42: Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu.**

**Mae penderfyniadau'r Panel ynghylch Teithio a Chynhaliaeth, Ad-dalu costau gofal ac Absenoldeb Teuluol bellach wedi'u nodi mewn adrannau ar wahân o'r Adroddiad Blynyddol hwn.**

## 10. Ad-dalu Costau Gofal

10.1. Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac i aelodau cyfetholedig o'r awdurdodau hyn. (Rhoddir darpariaeth debyg ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn adran 13 gan fod dull gwahanol yn berthnasol i aelodau o'r fath, yn bennaf bod y ddarpariaeth yn ganiataol.)

**Penderfyniad 43: Mae'n rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.**

10.2. Mae'r ddarpariaeth i ad-dalu costau gofal wedi'i bwriadu i alluogi unrhyw un y byddai ei gyfrifoldebau fel gofalwr yn cyfyngu ar allu i gyfranogi fel aelod o awdurdod i gyflawni ei rôl, neu roi cymorth gofal i aelod er mwyn galluogi'r unigolyn hwnnw i gyflawni ei rôl. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn gysylltiedig â chyhoeddi'r treuliau dilys hyn ac mae wedi adlewyrchu hyn yn y dewisiadau ar gyfer cyhoeddi a nodir yn Atodiad 4. Fodd bynnag, mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hyrwyddo'r ad-daliad hwn ac annog mwy o aelodau i fanteisio ar y cymorth hwn i hwyluso cyfranogaeth ymhlith aelodau presennol o awdurdodau ac i hyrwyddo amrywiaeth ymhlith aelodau etholedig yn y dyfodol.

10.3. Byddai darpariaeth o'r fath yn arbennig o berthnasol i'r unigolion hynny mewn sectorau o fewn y boblogaeth sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd ond a allai ddechrau ymgysylltu pan fo ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael gyda'r costau'n dod yn hysbys yn fwy eang.

## 11. Absenoldeb Oherwydd Salwch i Ddeiliaid Uwch Gyflogau

11.1. Mae’r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol (a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2014) yn benodol iawn mewn perthynas â hawliau a dim ond i aelodau etholedig o brif gynghorau y maent ar gael. Nid yw absenoldeb oherwydd salwch wedi’i gynnwys.

11.2. Mae achosion wedi cael eu dwyn i sylw’r Panel sy’n ymwneud â deiliaid uwch gyflogau ar salwch hirdymor a’r annhegwch canfyddedig o’i gymharu â’r trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol. O ganlyniad, mae cynghorau’n wynebu’r cyfyng-gyngor canlynol:

- Gweithredu heb yr aelod unigol ond parhau i dalu’r uwch gyflog iddo.
- Disodli’r aelod sydd felly’n colli’r uwch gyflog (ond yn cadw’r cyflog sylfaenol).

11.3. Mae’r Panel wedi ystyried hyn ac mae’n diwygio’r Fframwaith i ddarparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor fel y nodir isod:

a) Caiff salwch hirdymor ei ddiffinio fel absenoldebau ardystiedig y tu hwnt i 4 wythnos.

b) Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu nes bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, pa un bynnag sydd gyntaf (ond os bydd yn cael ei ailbenodi bydd unrhyw ran o’r 26 wythnos sy’n weddill yn cael ei chynnwys).

c) O fewn y terfynau hyn gall deiliad uwch gyflog sydd ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch barhau i gael cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os yw’r awdurdod yn penderfynu.

d) Mater i’r awdurdod yw penderfynu a yw’n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy’n absennol ai peidio ond bydd yr aelod etholedig sy’n dirprwyo n gymwys i gael yr uwch gyflog sy’n briodol i’r swydd.

e) Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i’r sawl sy’n dirprwyo’n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i’r uchafswm uwch gyflogau sy’n berthnasol i’r awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery’r trefniant dirprwyo. (Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai’n golygu bod mwy na 50% o’r aelodaeth yn cael uwch gyflog. Ni fyddai’n berthnasol ychwaith mewn perthynas ag aelod o weithrediaeth cyngor pe bai’n golygu bod y cabinet yn mynd y tu hwnt i 10 swydd – yr uchafswm statudol).

f) Pan fo’r Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy’n dirprwyo, mae’n rhaid hysbysu’r Panel, a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd

disgwyliedig y trefniant dirprwyo. Mae’n rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr awdurdod yn unol â hynny.

g) Nid yw’n berthnasol i aelodau etholedig o brif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid uwch swyddi gan eu bod yn parhau i gael cyflog sylfaenol am o leiaf chwe mis ni waeth beth fo’u presenoldeb a mater i’r awdurdod yw unrhyw estyniad y tu hwnt i’r raddfa amser hon.

11.4. Mae’r trefniant hwn yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub sy’n ddeiliaid uwch gyflogau, gan gynnwys aelodau a gafodd ei benodi gan Llywodraeth Cymru, ond nid yw’n berthnasol i aelodau cyfetholedig.

**Nodyn:**

Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol yn berthnasol i aelodau etholedig mewn achosion o absenoldeb mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu, a rhieniol o ddyletswyddau swyddogol.

## 12. Ad-dalu Costau Teithio a Chynhaliaeth Pan Fo’r Aelod ar Fusnes Swyddogol

12.1. Mae’r adran hon yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac i aelodau cyfetholedig o’r awdurdodau hyn. (Rhoddir darpariaeth debyg ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn adran 13 gan fod dull gwahanol yn berthnasol i aelodau o’r fath, yn bennaf bod y ddarpariaeth yn ganiataol.)

12.2. Gall aelodau hawlio ad-daliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth (prydau a llety) lle mae’r rhain wedi deillio o ganlyniad i gyflawni dyletswyddau swyddogol. Mae treuliau a ad-delir i aelodau gan eu hawdurdod lleol wedi’u heithrio rhag Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol gan y cyflogai.

12.3. Mae’r Panel yn ymwybodol bod aelodau ag anableddau wedi bod yn gyndyn o hawlio treuliau teithio dilys mewn rhai achosion oherwydd ymateb anffafriol yn dilyn cyhoeddi eu costau teithio. Fel dewis arall gallai trefniadau teithio gael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod dan amgylchiadau o’r fath.

12.4. Mae’r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid i gyfraddau milltiredd y mae gan aelodau hawl i’w hawlio. Dim ond yn ôl cyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y gall yr holl awdurdodau ad-dalu costau teithio eu haelodau sy’n ymgymryd â busnes swyddogol o fewn a/neu’r tu allan i ffiniau’r awdurdod, ac mae’r cyfraddau hyn fel a ganlyn:

**Ad-dalu costau milltiredd**

| | |
|---|---|
| 45c y filltir | Hyd at 10,000 o filltiroedd mewn blwyddyn mewn car |
| 25c y filltir | Dros 10,000 o filltiroedd mewn blwyddyn mewn car |
| 5c y filltir | Am bob teithiwr sy’n cael ei gludo ar fusnes yr awdurdod |
| 24c y filltir | Beiciau modur |
| 20c y filltir | Beiciau |

12.5. Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol yn cael ei gludo gan drydydd parti (nad yw’n un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi’i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo’r costau hyn.

**Ad-dalu costau teithio eraill**

12.6. Mae’n rhaid i’r holl hawliadau eraill am gostau teithio gael eu had-dalu dim ond os dangosir derbynebau sy’n dangos y gost wirioneddol a byddant yn amodol ar unrhyw ofyniad neu gyfyngiad pellach y gall awdurdod ei bennu. Dylai aelodau wastad fod yn ymwybodol o’r angen i ddewis y dull teithio mwyaf cost-effeithiol.

**Ad-dalu costau cynhaliaeth**

| | |
|---|---|
| £28 y dydd | Lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast, lle nad yw’n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos |
| £200 y nos | Llundain |
| £95 y nos | Ardaloedd eraill |
| £30 y nos | Aros gyda ffrindiau a/neu deulu |

12.7. Mae’r cyfraddau hyn yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod yr awdurdod perthnasol fel arfer yn archebu llety dros nos ac yn talu amdano ar ran aelodau, ac mewn achos o’r fath gall awdurdod bennu ei derfynau rhesymol ei hun ac nid yw’r terfynau sy’n berthnasol pan fo aelod unigol yn hawlio’n ôl-ddyledus am lety dros nos yn berthnasol bryd hynny.

12.8. Mae’n rhaid i bob awdurdod barhau i dalu costau cynhaliaeth ar gyfer eu haelodau hyd at y cyfraddau uchaf a nodir uchod ar sail hawliadau gyda derbynebau, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau’n aros gyda ffrindiau a/neu deulu.

12.9. Efallai y bydd achosion lle bydd awdurdod wedi pennu bod costau teithio o fewn ei ffiniau’n daladwy a bod angen ailadrodd y daith ar ddiwrnodau olynol. Lle y bo’n rhesymol ac yn gost-effeithiol talu costau llety dros nos yn hytrach na chostau milltiredd dyddiol dro ar ôl tro, ceir caniatâd i wneud hynny.

12.10. Nid oes angen dyrannu’r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y dydd) rhwng gwahanol brydau, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw hynny’n berthnasol, cyn belled ag y cyflwynir derbynebau gyda hawliad o’r fath.

# 13. Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned

13.1. Mae’r Panel wedi bod yn gyfrifol am gydnabyddiaeth ariannol i gynghorau tref a chymuned ers Mesur 2011 a daeth ei benderfyniadau cyntaf ar gyfer aelodau o'r fath i rym ym mlwyddyn ariannol 2013/2014. Mae Adroddiadau Blynyddol dilynol wedi datblygu syniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr tref a chymuned, gan ganiatáu hyblygrwydd i gwrdd â chyfrifoldebau priodol.

13.2. Mae’r Panel yn cydnabod bod amrywiadau eang o ran daearyddiaeth, cwmpas a graddfa ar draws 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru, o gynghorau cymuned bychain â gwariant cymharol isel ac ychydig o gyfarfodydd i gynghorau tref mawr ag asedau a chyfrifoldebau sylweddol.

13.3. Felly mae penderfyniadau 44 i 51 yn bwerau caniataol, y mae gofyn cael penderfyniad ffurfiol gan bob cyngor tref neu gymuned yn flynyddol ar gyfer pob un ohonynt. Gall cyngor tref neu gymuned fabwysiadu unrhyw un neu bob un o’r penderfyniadau ond os yw’n gwneud penderfyniad o’r fath, mae’n rhaid iddo fod yn berthnasol i’w holl aelodau.

13.4. Gall aelod unigol wneud penderfyniad personol i ddewis mynd heb ran neu’r cyfan o’r hawl i unrhyw un o’r lwfansau hyn trwy roi rhybudd yn ysgrifenedig i swyddog priodol yn y cyngor.

13.5. Wrth wneud ei benderfyniadau eleni, ymgysylltodd y Panel yn weithgar â Chynghorau Tref a Chymuned. Cyfarfu'r Panel gyda chynrychiolwyr Un Llais Cymru a gyflwynodd y penderfyniadau drafft i'w drafod yn eu cynhadledd flynyddol. Cyfarfu'r Panel hefyd gyda chynrychiolydd o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Yn gynnar yn 2017 mae’r Panel yn cynnal 3 chyfarfod rhanbarthol ar draws Cymru ac yn cwrdd â Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru i drafod ymhellach cydnabyddiaeth ariannol Cynghorau Tref a Chymuned.

## Taliadau i Gynghorwyr Tref a Chymuned

13.6. Er mwyn digolledu aelodau o gynghorau tref a chymuned am dreuliau a chostau sy’n gysylltiedig â chyflawni eu dyletswyddau, mae’r Panel wedi penderfynu y dylai cynghorau gael eu hawdurdodi i wneud taliad i bob aelod.

**Penderfyniad 44: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu hyd at £150 y flwyddyn i’w haelodau am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio’r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati.**

## Uwch rolau

13.7. Mae’r Panel yn cydnabod y gall rolau penodol ar gyfer aelodau yn enwedig o fewn y cynghorau tref a chymuned mwy, er enghraifft cadeirydd pwyllgor,

olygu mwy o gyfrifoldeb. Mae felly wedi penderfynu y dylai cynghorau gael eu hawdurdodi i dalu hyd at dri thaliad cyfrifoldeb ar gyfer rolau penodedig.

**Penderfyniad 45: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i wneud taliad blynyddol nad yw'n fwy na £500 yr un i hyd at 3 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud.**

### Lwfans dinesig

13.8. Gan gydnabod bod rhai meiri a chadeiryddion cynghorau tref a chymuned a'u dirprwyon yn weithgar iawn yn ystod eu blwyddyn yn y swydd, mae'r Panel wedi penderfynu y dylai cynghorau tref a chymuned gael eu hawdurdodi i dalu lwfans ar gyfer y rolau hyn.

13.9. Yn ei adroddiadau blynyddol blaenorol ni wnaeth y Panel bennu unrhyw lefelau uchaf o ran taliadau i feiri/penaethiaid a'u dirprwyon. Mae ymchwil y Panel yn dynodi nad yw'r mwyafrif o gynghorau tref a chymuned yn gwneud unrhyw daliadau neu eu bod yn gwneud taliadau bach iawn i'w harweinwyr dinesig.
Fodd bynnag, mae arwyddion bod rhai cynghorau cymuned a thref yn adrodd am y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer swyddogaethau dinesig yn hytrach na'r swm a delir fel lwfans dinesig bersonol i'r unigolyn. Bydd y Panel yn cymryd camau pellach i sefydlu ffigurau cywir ar gyfer taliadau a wneir i feiri / gadeiryddion gyda'r bwriad o osod uchafswm briodol ar gyfer taliadau o'r fath yn ei Adroddiad Blynyddol 2018.

**Penderfyniad 46: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i faer/cadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb hwy i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud**

**Penderfyniad 47: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i ddirprwy faer/gadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb hwy i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud**

### Ad-dalu costau teithio

13.10. Mae'r Panel yn cydnabod y gall fod costau teithio sylweddol yn gysylltiedig â gwaith aelodau o gynghorau tref a chymuned, yn enwedig lle mae ardal y cyngor yn fawr yn ddaearyddol a/neu wrth gyflawni dyletswyddau y tu allan i'r ardal hon. Felly, mae wedi gwneud darpariaeth ar gyfer talu costau teithio.

**Penderfyniad 48: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.** [8] **Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:**

- **45c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.**
- **25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.**
- **5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.**
- **24c y filltir – beiciau modur preifat.**
- **20c y filltir – beiciau.**

### Ad-dalu cynhaliaeth

**Penderfyniad 49: Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:**

- **lwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.**
- **£200 – Llundain dros nos.**
- **£95 – rhywle arall dros nos.**
- **£30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.**

### Lwfansau / Taliadau Eraill

13.11. Yn flaenorol roedd y Panel wedi penderfynu y gellid talu Lwfans Presenoldeb i bob un o'i aelodau am fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Ychydig iawn o gynghorau tref neu gymuned a wnaeth y taliad hwn felly mae'r lwfans hwn wedi cael ei ddileu. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi cadw'r cyfleuster ac wedi cynyddu'r swm y mae'n rhaid i gynghorau ei dalu fel iawndal i'w haelodau pan fyddant yn dioddef colled ariannol o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy.

---

[8] Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol yn cael ei gludo gan drydydd parti (nad yw'n un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.

**Penderfyniad 50: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:**

- **Hyd at £34.00 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr:**
- **Hyd at £68.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr.**

### Ad-dalu costau gofal

13.12. Er mwyn mynd i'r afael â materion cyfranogiad democrataidd ac amrywiaeth, mae'r Panel wedi penderfynu caniatáu ad-dalu costau i aelodau sy'n deillio o ofalu am blant dibynnol ac eraill, neu gostau a ysgwyddwyd mewn perthynas ag angen am gymorth personol, tra bo'r aelod yn mynychu cyfarfodydd ac yn cyflawni dyletswyddau cymeradwy eraill.

**Penderfyniad 51: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.**

### Gofynion o ran cyhoeddusrwydd

13.13. Ceir gofyniad i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi manylion yr holl daliadau a wneir i aelodau unigol mewn Datganiad o Daliadau blynyddol. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar hysbysfyrddau a/neu wefannau cynghorau (gyda mynediad rhwydd) a chael ei darparu ar gyfer y Panel trwy'r e-bost neu drwy'r post yn ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'r taliadau'n ymwneud â hi. Mae'r Panel yn tynnu sylw at y gofynion a nodir yn Atodiad 4. Mae'r Panel yn pryderu bod nifer sylweddol o gynghorau yn torri'r gofyniad hwn.

# 14. Cydymffurfio â Gofynion y Panel

## Cylch Gwaith y Panel dan y Mesur

14.1 Mae Adran 153 o'r Mesur yn galluogi'r Panel i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol[9] gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan Adroddiadau Blynyddol y Panel ac yn galluogi'r Panel i fonitro sut mae awdurdodau perthnasol yn cydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel.

14.2 Rhaid i awdurdod perthnasol weithredu penderfyniadau'r Panel yn yr adroddiad hwn o ddyddiad ei gyfarfod blynyddol neu ddyddiad a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol.

## Monitro cydymffurfiaeth

14.3 Bydd y Panel yn monitro sut y mae pob awdurdod perthnasol yn cydymffurfio â'r penderfyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol hwn trwy ystyried y gofynion canlynol:

(i) Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol gynnal **Rhestr flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau** (Rheoliadau 4 a 5 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol). Mae canllawiau yn Atodiad 3 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Rhestr.

(ii) Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod (Rheoliad 46 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) ac anfon y Rhestr at y Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol a dim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion cyhoeddusrwydd.

(iii) Rhaid hysbysu'r Panel am unrhyw ddiwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod y flwyddyn cyn gynted â phosibl wedi i'r diwygiad cael ei wneud.

**Sylwer: Nid yw'r gofynion uchod yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned ar hyn o bryd**. **Mae'r canlynol yn berthnasol i'r holl awdurdodau gan gynnwys cynghorau tref a chymuned.**

(iv) Rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau i gyhoeddi o fewn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig o safbwynt cyflog (sylfaenol, uwch a dinesig), lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau mewn Datganiad o Daliadau (yn unol ag Atodiad 4 sy'n nodi cynnwys y Gofynion o ran Cyhoeddusrwydd) cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl a dim hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Rhaid iddo gael ei gyflwyno i'r Panel yn ddim hwyrach na'r dyddiad hwn.

[9] Dehongliad o "Awdurdod Perthnasol" yn ôl Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), Rhan 1, 'Dehongli'.

## 15. Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Taledig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub a Phrif Swyddogion Prif Gynghorau

15.1 Diwygiodd Adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 trwy fewnosod adran 143A. Mae hyn yn galluogi'r Panel i lunio barn ynglŷn ag unrhyw beth yn Natganiadau Polisi Tâl yr awdurdodau hyn sy'n ymwneud â chyflog Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Tân fel arfer). Fe wnaeth adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ddiwygio'r mesur ymhellach gan ymestyn y swyddogaeth hon i gynnwys Prif Swyddogion Prif Gynghorau.

15.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y Panel sydd i'w gweld yn http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/160212-irp-guide-salaries-en-v2.pdf. Mae'r rhain yn nodi'r sail y bydd y Panel yn ei defnyddio i gyflawni'r swyddogaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddeddfwriaeth.

15.3 Swyddogaethau'r Panel yn eu hanfod a'r gofynion ar awdurdodau a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth a'r canllawiau dilynol yw:

a) Os yw prif gyngor yn bwriadu newid cyflog pennaeth y gwasanaeth cyflogedig neu brif swyddog, neu os yw awdurdod tân ac achub yn bwriadu newid cyflog ei bennaeth gwasanaeth cyflogedig rhaid iddo ymgynghori â'r Panel oni bai bod y newid yn cyd-fynd â newidiadau a gymhwysir i swyddogion eraill yn yr awdurdod (pe bai'r newid yn gynnydd neu ostyngiad). Mae 'cyflog' yn cynnwys taliadau o dan gontract am wasanaethau, yn ogystal â thaliadau cyflog o dan gontract cyflogaeth.

b) Rhaid i'r awdurdod roi sylw i argymhelliad/argymhellion y Panel wrth wneud ei benderfyniad.

c) Caiff y Panel ofyn am unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i ddod i gasgliad a chyflwyno argymhelliad. Mae'n rhaid i'r awdurdod ddarparu'r wybodaeth a geisir gan y Panel.

d) Caiff y Panel gyhoeddi unrhyw argymhelliad y mae'n ei wneud. Y bwriad yw, er budd tryloywder, y bydd fel arfer yn gwneud hynny.

e) Gallai argymhelliad/argymhellion y Panel:

- gymeradwyo cynnig yr awdurdod
- mynegi pryderon am y cynnig
- argymell amrywiadau i'r cynnig

ar yr amod bod y rhain yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

15.4 Mae gan y Panel bŵer cyffredinol hefyd i adolygu Datganiadau ar Bolisïau Tâl Awdurdodau i'r graddau y maent yn ymwneud â thâl penaethiaid gwasanaeth cyflogedig (a phrif swyddogion tan 2020).

15.5 Mae'n bwysig nodi na fydd y Panel yn penderfynu beth fydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig unigol yn ei dderbyn.

15.6 Mae'r Panel yn ymwybodol iawn bod y swyddogaeth ychwanegol hon yn wahanol iawn i'w gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol aelodau. Ond bydd yn sicrhau ei fod yn ymgymryd â'r rôl hon drwy fod yn glir ac yn agored, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol mewn perthynas ag achosion unigol penodol. Anogir awdurdodau i ymgynghori â'r Panel yn gynnar yn ei broses ar gyfer gwneud penderfyniad ar y materion hyn. Bydd hyn yn galluogi'r Panel i ymateb mewn modd amserol.

15.7 Wedi'u hatodi wrth yr adran hon mae penderfyniadau'r Panel ynghylch:

- Prif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Ailstrwythuro Prif Weithredwyr yng Nghyngor Sir Ddinbych
- Ailstrwythuro Prif Weithredwyr yng Nghyngor Sir Fynwy
- Prif Swyddog yng Nghyngor Sir Penfro
- Prif swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd
- Prif Swyddog Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

### Datganiadau Polisi Cyflog

15.8 Mae paragraff 3.7 o'r canllawiau i'r Panel gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn: "Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r Panel i rôl adweithiol". Mae'n galluogi'r Panel i ddefnyddio'i bŵer i wneud argymhellion sy'n ymwneud â darpariaethau o fewn Datganiadau Polisi Cyflog awdurdodau lleol. Mae'r Panel wedi ystyried hyn yng nghyd-destun ei adnoddau ac mae wedi penderfynu bod y rhain yn cyfyngi ar yr amser y gellid ei gymhwyso i'r pŵer agored hwn. Felly bydd yn archwilio newidiadau o flwyddyn i flwyddyn i gyflogau Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion er mwyn sicrhau bod y rhain yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

**Prif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Mr D Daycock
Clerc a Swyddog Monitro
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

d.daycock@mawwfire.gov.uk

23 Tachwedd 2015

Annwyl Mr Daycock,

**Cyflog Arfaethedig y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig)**

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi ystyried y cyflog a gynigir yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Swyddogion a gyflwynwyd gennych ar 2 Tachwedd, yn unol ag Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Rydym yn nodi bod y Pwyllgor yn argymell cymeradwyo hyn i'r Awdurdod.
Cyfarfu'r Panel ar 18 Tachwedd 2015; roedd pob aelod yn bresennol. Roeddem yn ddiolchgar am yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i'n cynorthwyo i ystyried y cynnig. Mae'r canllawiau i'r Panel gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i swyddogaeth dan Adran 143A yn datgan y gallai'r Panel:

a) Ddatgan ei fod yn cymeradwyo'r cynnig
b) Mynegi pryderon ynglŷn â'r cynnig
c) Argymell amrywiad i'r cynnig

Rydym wedi archwilio cynnwys yr adroddiad a'r ddogfennaeth ychwanegol a ddarparwyd. Er ein bod yn deall yn llawn yr awydd i adolygu'r system bresennol o daliadau i'r Prif Swyddog Tân a chreu fframwaith symlach, rydym wedi penderfynu "Mynegi pryderon ynglŷn â'r cynnig".

Rydym yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn isod.

Rydych chi wedi hysbysu bod cydnabyddiaeth ariannol bresennol y Prif Swyddog Tân yn cynnwys pedair elfen – Cyflog Sylfaenol; Adennill (yn ôl 3% o'r cyflog sylfaenol, wedi'i gyfuno); Tâl yn ôl Perfformiad (hyd at 3% o'r cyfuniad o Gyflog

Sylfaenol ac Adennill) a lwfans ar gyfer TGCh. Rydym wedi nodi mai anaml y mae "Adennill" yn peidio â chael ei dalu sy'n rhoi'r argraff ei fod i bob pwrpas yn rhan o'r cyflog sylfaenol, yn enwedig gan ei fod wedi'i gyfuno. Fodd bynnag, telir Tâl yn ôl Perfformiad dim ond am berfformiad "sy'n wirioneddol y tu hwnt i'r disgwyliadau". Nid yw'r adroddiad yn nodi sut y caiff perfformiad o'r fath ei asesu ond o ystyried y diffiniad hwn byddai'n syndod pe bai hyn yn cael ei gyflawni'n rheolaidd.

Nid yw'r cynnig i bennu'r cyflog ar sail cyfuniad o ganolrif band poblogaeth 3 a'r canolrif ar gyfer swyddi o bwys tebyg yn cael ei gyfiawnhau yn yr adroddiad ond i'r Panel ymddengys yn ffordd o ddigolledu am ddirwyn yr elfen Tâl yn ôl Perfformiad i ben. Ar y cyfan, y canlyniad yw cyflog cyfunol sy'n sylweddol uwch na'r cyflog sylfaenol presennol (hyd yn oed pan fo'r elfen Adennill wedi'i chynnwys).

Mae'r Panel o'r farn nad oes cyfiawnhad dros gynnydd o'r fath yn y cyflog sylfaenol a'i fod i'w weld yn anghyson â chodiadau cyflog eraill yn y sector cyhoeddus. Felly rydym yn ffurfiol yn Mynegi Pryder ac yn disgwyl i'r awdurdod ailystyried.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod roi ystyriaeth i farn y Panel ond nid oes gorfodaeth arno i'w dilyn. Hoffem dynnu eich sylw yn arbennig at baragraff 3.2 o'r canllawiau.

Mae'r Panel wedi nodi bod yr adroddiad hefyd yn ymdrin â chydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion eraill yr awdurdod. Ar hyn o bryd nid yw ein cylch gwaith yn cynnwys swyddogion islaw'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ac nid ydym yn gwneud unrhyw sylw ar y cynigion ar gyfer y swyddi hyn.

Fel arfer byddai'r Panel yn cyhoeddi ei benderfyniad wrth arfer y swyddogaeth hon er mwyn tryloywder; fodd bynnag, yn yr achos hwn bydd hwn yn cael ei gadw'n ôl nes ein bod wedi cael ein hysbysu ynghylch ymateb yr awdurdod.

Yn gywir,

Richard Penn
Cadeirydd

**Ailstrwythuro Prif Weithredwyr yng Nghyngor Sir Ddinbych**

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych

CC
Y Cyngh Hugh Evans
Catrin Roberts
Sophie Vaughan

04 Ebrill 2016

Annwyl Mr Mehmet

**Adolygu cyflogau'r uwch-dîm arwain**

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi ystyried, yn unol ag Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y strwythur cyflog ar gyfer yr uwch-dîm arwain (SLT) yn Sir Ddinbych a gynigiwyd yn sgil yr adolygiad o gyflogau a gynhaliwyd gan ei bwyllgor ar gydnabyddiaeth ariannol. Mae'r Panel yn nodi bod y pwyllgor yn argymell cymeradwyo hyn i'r cyngor llawn.

Nid oedd yn bosibl i aelodau'r Panel ystyried y cynnig yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth oherwydd bod arnynt angen wybodaeth mwy penodol a pherthnasol na'r hyn a ddarparwyd. Fodd bynnag, er mwyn ystyried hyn heb oedi, galwyd cyfarfod eithriadol o'r Panel ynghyd ar 30 Mawrth 2016 yn benodol at y diben hwn. Roedd pedwar o bum aelod y panel yn bresennol, felly roedd yna gworwm. Roeddem wedi edrych yn fanwl cyn y cyfarfod hwn ar gynnwys yr adroddiad *Senior Leadership Pay Review March 2016* a ddarparwyd i'r Panel, yn ogystal â'r ddogfennaeth wreiddiol, yn ôl y drefn gronolegol, a oedd wedi'u darparu cyn hynny.

O ystyried bod tipyn o amser wedi mynd heibio ers i'r adolygiad diwethaf gael ei gynnal o strwythur cyflog ei Uwch-dîm Arwain, rydym yn deall symbyliad Cyngor Sir Ddinbych i fwrw ati gyda'r adolygu. Rydym yn ymwybodol hefyd fod newidiadau ad hoc wedi'u gwneud o ganlyniad i leihad sylweddol yn aelodaeth yr Uwch-dîm Arwain a bod hyn wedi arwain at addasu cyflogau drwy daliadau atodol ar sail y farchnad a honoraria. Rydym yn nodi dymuniad Sir Dinbych i greu strwythur cyflog sy'n adolygu'r rhain ac sy'n deg, cyson a thryloyw, ac sy'n gallu cadw uwch-reolwyr a'u hysgogi.

Mae arweiniad ar gyfer y Panel gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i swyddogaeth o dan Adran 143A yn datgan y gallai'r Panel:

a) Ddatgan ei fod yn cymeradwyo'r cynnig
b) Mynegi pryderon ynglŷn â'r cynnig
c) Argymell amrywiad i'r cynnig

Wedi ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd, penderfyniad y Panel yw argymell amrywiad i gynnig y Cyngor. Mae hyn, ynghyd â'r rhesymau ar gyfer yr argymhelliad, wedi'u hamlinellu isod.

Yn ôl yr adroddiad a ddarparwyd i'r Panel, un o egwyddorion y pwyllgor ar gydnabyddiaeth ariannol oedd i'r strwythur cyflogau fod o fewn yr ystod cyflog ganolog, a fyddai'n debyg i daliadau cydnabyddiaeth mewn sefydliadau eraill. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi data a ddarparwyd gan Hay ar ffigur canolrifol y farchnad ar gyfer cyfarwyddwyr corfforaethol a'r ddwy lefel o bennaeth gwasanaeth. Mae yna gymhariaeth hefyd ag ystodau cyflog tri awdurdod cyfagos.

Nododd y Panel nad oedd y data gan Hay, fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad, yn nodi'r ffynonellau a gafodd eu defnyddio. Nid yw'r data yn manylu pa sefydliadau a gafodd eu defnyddio wrth wneud y gymhariaeth, felly. Gallai pwyllgor ar gydnabyddiaeth ariannol y Cyngor fod wedi gwneud cymariaethau â holl gynghorau Cymru a Lloegr neu is-grŵp ohonynt, ee holl gynghorau Cymru neu holl gynghorau unedol y DU.

Nododd y Panel mai'r opsiynau polisi a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol, sy'n golygu uno Sir Ddinbych a naill ai Conwy neu Sir y Fflint a Wrecsam, a roddwyd fel y rheswm dros gymharu ag awdurdodau cyfagos. Mae'r Panel yn ystyried, wrth ymgymryd â'i swyddogaethau o dan adran 143A, na all ffurfweddiad posibl ardaloedd awdurdodau lleol fod yn brif ffactor wrth ystyried cynigion sy'n cael eu cyfeirio ato. Nid yw'r gymhariaeth ag awdurdodau cyfagos yn dystiolaeth ddarbwyllol, felly, i gyfiawnhau'r newid ar y sail hwn.

Mae'r Panel felly hefyd wedi ystyried wybodaeth sy'n ymwneud â manylion demograffeg a chyllid pob un o brif gynghorau Cymru.

- Mae poblogaeth Sir Ddinbych yn safle 16 ar y rhestr o 22 o'r prif gynghorau yng Nghymru.

- Mae cyllid refeniw'r Cyngor oddeutu £186 miliwn. Hwn yw'r 16eg Cyngor mwyaf o'r 22 o gynghorau.

- Mae ystodau cyflog prif swyddogion awdurdodau eraill Cymru yn debyg o ran maint ac mae ganddynt gyllidebau refeniw tebyg hefyd

Felly, argymhelliad y Panel yw:

- Dylai'r cyflog uchaf a delir ar hyn o bryd yn y tair gradd arfaethedig (SLT3 cyfarwyddwr corfforaethol, SLT2 pennaeth gwasanaeth a SLT1 pennaeth gwasanaeth) fod y mwyafswm yn y radd honno;

- Gellir codi cyflog y swyddogion sy'n derbyn cyflog ar hyn o bryd sy'n is na'r cyflog uchaf i'r lefel honno drwy gyfres o gynyddrannau, dros gyfnod o dair blynedd. Dylid strwythuro'r cynyddrannau fel na fydd unrhyw swyddog yn cael cynyddran lai na £1,000;
- Yn amodol ar bwynt 2, mae gan y cyngor ddisgresiwn i bennu'r isafswm ar gyfer y radd a'r camau cynyddrannol i gyrraedd y mwyafswm fel y nodir isod.

| **Argymhelliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol<br>Uwch-dîm Arwain – Sir Ddinbych (yn eithrio'r Prif Weithredwr)** | | |
|---|---|---|
| | | |
| SLT3 (Cyfarwyddwyr) | 96,630 | mwyafswm y raddfa |
| | XX | canolbwynt y raddfa * |
| | XX | dechrau'r raddfa * |
| | | |
| SLT2 (Pennaeth Gwasanaeth) | 77,687 | mwyafswm y raddfa |
| | XX | canolbwynt y raddfa * |
| | XX | dechrau'r raddfa * |
| | | |
| SLT1 (Pennaeth Gwasanaeth) | 62,687 | mwyafswm y raddfa |
| | XX | canolbwynt y raddfa * |
| | XX | dechrau'r raddfa * |
| | | |

* I'r Cyngor i'w benderfynu


Mae'r Cyngor yn ystyried bod y strwythur hwn yn bodloni'r egwyddorion y bu'r panel ar gydnabyddiaeth ariannol yn gweithio'n unol â hwy, yn arbennig:
*There is sufficient opportunity for financial progression over 3 years*
*No officer is being financially disadvantaged.*

Yn unol ag adrannau143A (3B) a (4A) o Fesur Llywodraeth Leol 2011, mae'n ofynnol i'r awdurdod ystyried safbwyntiau'r Panel ac mae'n ofynnol i'r Panel roi gwybod i Weinidogion Cymru am ei argymhelliad.

Yn unol ag adran 143A (5A), rhaid i’r awdurdod roi gwybod i’r Panel ac i Weinidogion Cymru am ei ymateb i’r argymhelliad hwn.

Fel arfer, byddai’r Panel yn cyhoeddi ei benderfyniad wrth arfer y swyddogaeth hon at ddibenion bod yn dryloyw. Fodd bynnag, yn yr achos hwn bydd y penderfyniad yn cael ei ddal yn ôl hyd nes inni gael gwybod beth yw ymateb yr awdurdod.

Yn gywir,



John Bader
Cadeirydd

**Ailstrwythuro Prif Swyddogion yng Nghyngor Sir Fynwy**

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

Paul Matthews
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fynwy
cc. Y Cynghorydd Peter Fox, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy

26 Mai 2015

Annwyl Mr Matthews

**Newid yn Arweinyddiaeth yr Uwch Swyddogion yng Nghyngor Sir Fynwy**

Cafodd eich llythyr dyddiedig 5 Mai, ynghyd â'r dogfennau i'w gefnogi, eu hystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol felly roedd hynny'n gwneud cworwm.

Roedd aelodau'r Panel yn ddiolchgar am y dogfennau a ddarparwyd, gan gynnwys yr wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan yr ysgrifenyddiaeth. Nodwyd y byddai'r strwythur a gafodd ei gynnig yn arwain at arbedion sylweddol a fyddai'n parhau.

O ran swyddogaeth y Panel yn ymwneud â chyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gorchwyl a'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel:

a) Gymeradwyo'r cynigion
b) Mynegi pryderon ynglŷn â'r cynigion
c) Argymell amrywiad i'r cynigion

Yn sgil ystyried y cais gan eich awdurdod, mae'r Panel wedi penderfynu cymeradwyo'r cynigion fel y'u cyflwynwyd.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

**Newid i Gyflog Prif Swyddog Sir Penfro**

Ceri Davies
Pennaeth Adnoddau Dynol
Cyngor Sir Benfro

cc. Mark Woolgar, Rheolwr Adnoddau Dynol

22 Awst 2016

Annwyl Ceri,

**Cynnig i newid cyflog prif swyddog**

Ystyriwyd eich llythyr a'r dogfennaeth dyddiedig 8 Awst gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn y cyfarfod ar 17 Awst. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol ac felly roedd y cyfarfod â chworwm

Ynglŷn â swyddogaeth y Panel wrth ymwneud â chyflogau prif swyddogion, mae gorchwyl a chanllawiau oddi wrth Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel:

a) Gymeradwyo'r cynigion
b) Mynegi pryderon ynglŷn â'r cynigion
c) Argymell amrywiad i'r cynigion

Wedi ystyried y cynnig gan eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw i gymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd

**Adolygiad o Gyflogau Prif Swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd**

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

Will Godfrey
Prif Weithredwr
Cyngor Dinas Casnewydd

Will.godfrey@newport.gov.uk

Eich cyf/ Your ref:

Ein cyf/Our ref: zA1263030

cc Rachael Davies
Rheolwr AD

RachaelA.Davies@newport.gov.uk

23 Medi2016

Annwyl Will

**Adolygiad o gyflogau uwch Cyngor Dinas Casnewydd**

Ystyriwyd eich adroddiad a dogfennaeth cysylltiedig gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn y cyfarfod ar 14 Medi. Roedd pum aelod o'r Panel yn bresennol ac felly roedd y cyfarfod â chworwm

Mae'r Panel wedi ystyried eich cynnig i newid ystod cyflog rhai o'ch penaethiaid gwasanaeth. Gofynnodd y Panel i mi ofyn am eglurhad ar ddau fater:

1. Statws eich ail gynnig (o dan y teitl Rhan 2) ac os yw'r rhan hwn yn cymryd blaenoriaeth dros y cynnig gwreiddiol.
2. I sefydlu pa ystod cyflog oeddech yn cynnig fel ystod HDSO2, oherwydd yr roedd yn is yn eich cais nag yn y gwybodaeth a rhoddwyd i ni gan eich rheolwr AD yn dilyn cais gennyf i.

Cadarnhawyd gennych fod y cynnig gwreiddiol (Rhan 1) oedd y cynnig yn ydych yn gofyn i'r Panel ystyried a bod yr ystod cyflog cywir oedd yr un a ddarperir gan eich rheolwr AD.

Wedi ystyried y cynnig gan eich awdurdod, ac wedi derbyn eglurhad boddhaol ar y materion a nodir uchod penderfyniad y Panel yw i gymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd

Gyda phob hwyl

John Bader

John Bader
Cadeirydd, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adolygiad o Gyflog Prif Swyddog Castell Nedd Port Talbot

Nick Jarman
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

n.jarman@npt.gov.uk

13 Rhagfyr 2016

Annwyl Nick,

**Cynnig ar gyfer taliad atodol ar sail y farchnad – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion**

Ystyriwyd eich llythyr a dogfennau ategol dyddiedig 8 Tachwedd gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn y cyfarfod ar 17 Tachwedd. Roedd tri aelod o'r Panel yn bresennol ac felly roedd y cyfarfod yn gwneud cworwm. Gwnaeth dau aelod o'r Panel ddatgan gwrthdaro buddiannau, ac ni chymeron unrhyw ran yn y drafodaeth.

Yn dilyn cyfarfod hwn roedd y Panel yn dymuno trafod y mater â chi ymhellach, a hoffwn ddiolch i chi am gyfarfod â hwy ar 7 Rhagfyr i alluogi i'r drafodaeth honno ddigwydd.

Mewn perthynas â swyddogaeth y Panel yn ymwneud â chyflogau prif swyddogion mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel:

a) Gymeradwyo'r cynnig
b) Fynegi pryderon am y cynnig
c) Argymell amrywiad i'r cynnig

Wedi ystyried y cais gan eich awdurdod ac wedi trafod y mater gyda chi yn bersonol, penderfyniad y Panel yw cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd

# Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2017/18

| | |
|---|---|
| **Prif Gynghorau** | |
| 1. | Bydd y cyflog sylfaenol yn 2017/18 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yn £13,400. |
| 2. | Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd lefelau uwch gyflog yn 2017/18 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y nodir yn nhabl 2 (tudalen 14). |
| 3. | Mae'r Panel wedi penderfynu bod cyflogau dinesig (lle y'u telir) ar y lefelau canlynol yn daladwy (Tabl 3, tudalen 16) ac y byddant yn cael eu cymhwyso gan brif gynghorau yn ôl yr hyn sy'n briodol ym marn pob prif gyngor unigol, gan ystyried llwythi gwaith a chyfrifoldebau disgwyliedig. |
| 4. | Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yn rhaid i aelod llywyddol, os penodwyd un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael uwch gyflog ar Lefel 1 ym Mand 3. Bydd y swydd hon yn cyfrif tuag at y cap. |
| 5. | Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn cael cydnabyddiaeth ariannol. |
| 6. | Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau'n cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylid darparu cyfleusterau ffôn ac e-bost digonol i bob aelod etholedig, a mynediad electronig at wybodaeth briodol. |
| 7. | Mae'r Panel wedi penderfynu y dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau. |
| **Uwch gyflogau penodol neu ychwanegol** | |
| 8. | Mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. |
| **Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu** | |
| 9. | Mae cadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i gael cyflog sy'n gyfwerth â'r rhan o uwch gyflog ar Lefel 2 ym Mand 3 sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd pwyllgor prif awdurdod (£6,700). |
| 10. | Mewn achosion lle mae'r cadeirydd eisoes yn cael uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad yn £3,350. |

| | |
|---|---|
| 11. | Mae cadeirydd is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i gael cyflog o £1,675. |
| 12. | Mewn achosion lle mae cadeirydd yr is-bwyllgor eisoes yn cael uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad yn £837. |
| 13. | Bydd taliadau i gadeiryddion is-bwyllgorau gorchwyl a gorffen ar sail pro rata tra pery'r dasg. |
| 14. | Mae taliadau a wneir i gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu gadeirydd is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o aelodaeth yr awdurdod sy'n gymwys i gael uwch gyflog. Dylid nodi fod y terfyn statudol o ran dim mwy na 50% o aelodaeth cyngor yn cael uwch gyflog yn gymwys (Adran 142(5) o'r Mesur). |
| 15. | Nid yw dirprwy gadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys i gael taliad. |
| 16. | Nid yw aelodau cyfetholedig o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgor yn gymwys i gael ffi aelod cyfetholedig, oni bai eu bod wedi'u penodi gan awdurdod o dan Adran 144(5) o'r Mesur. |
| **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | |
| 17. | Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gynghorau. |
| **Absenoldeb Teuluol** | |
| 18. | Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol dan y rheoliadau ni waeth beth oedd ei hanes presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol. |
| 19. | Pan fo deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn dal i gael y cyflog tra pery'r absenoldeb. |
| 20. | Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol ai peidio. Bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo ar ran deiliad uwch gyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael uwch gyflog, os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny. |
| 21. | Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch gyflogau sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod nifer yr uwch gyflogau'n uwch na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru dan amgylchiadau o'r fath. |
| 22. | Pan fo Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol, mae'n rhaid hysbysu'r Panel, a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y trefniant dirprwyo. |

| | |
|---|---|
| 23. | Mae'n rhaid diwygio rhestr cydnabyddiaeth ariannol y Cyngor i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol. |
| **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** | |
| 24. | Dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fod yn £3,625 |
| 25. | Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd APC fod yn £12,325 |
| 26. | Gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor APC le ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus. Gellir talu'r cyflog hwn ar y naill neu'r llall o'r lefelau canlynol, yn ôl yr hyn a bennir gan yr awdurdod i adlewyrchu'r cyfrifoldeb priodol: £6,025 neu £7,325 |
| 27. | Mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer APCau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. |
| 28. | Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan APC. |
| 29. | Telir uwch gyflog APC gan gynnwys cyflog sylfaenol yr APC ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus |
| 30. | Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC arall y maent wedi'u penodi iddo. |
| **Awdurdodau Tân ac Achub** | |
| 31. | Dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fod yn £1,715 |
| 32. | Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fod yn £10,415. |
| 33. | Gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA le ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus. Dylid talu hwn ar lefel o £5,415. |
| 34. | Mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer ATAau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. |
| 35. | Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan ATA. |
| 36. | Telir uwch gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus. |
| 37. | Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo. |
| **Aelodau Cyfetholedig** | |
| 38. | Mae'n rhaid i Brif Gynghorau, APCau ac ATAau dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (Tabl 4, tudalen 32) (sydd â hawliau pleidleisio). |

| | |
|---|---|
| 39. | Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod. |
| 40. | Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol). |
| 41. | Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr. |
| 42. | Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu. |
| **Ad-dalu Costau Gofal** | |
| 43. | Mae'n rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau. |
| **Cynghorau Tref a Chymuned** | |
| 44. | Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu hyd at £150 y flwyddyn i'w haelodau am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati. |
| 45. | Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i wneud taliad blynyddol nad yw'n fwy na £500 yr un i hyd at 3 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud. |
| 46. | Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i faer/cadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb hwy i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud. |
| 47. | Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i ddirprwy faer/gadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb hwy i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud. |
| 48. | Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod |

| | |
|---|---|
| | yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:<br><br>- 45c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.<br>- 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.<br>- 5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.<br>- 24c y filltir – beiciau modur preifat.<br>- 20c y filltir – beiciau. |
| 49. | Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:<br><br>- lwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.<br>- £200 – Llundain dros nos<br>- £95 – rhywle arall dros nos.<br>- £30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos. |
| 50. | Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:<br><br>- Hyd at £33.00 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr:<br>- Hyd at £66.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr. |
| 51. | Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau. |

# Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ar gyfer:

**a) darparu cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol**

**b) ar gyfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau penaethiaid gwasanaeth taledig yr awdurdodau lleol**

**c) Prif Swyddogion Prif Gynghorau**

### Cyflwyniad

Mae Rhan 8 (adrannau 141 i 160) ac atodlen 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau a phensiynau aelodau awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel).

Mae Adrannau 62-67 o Ddeddf Llywodraeth Leol  (Democratiaeth) (Cymru) 2013yn diwygio adrannau 142, 143, 144, 147, 148 ac 151 y Mesur ac yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Panel.

Mae'r pwerau a geir yn rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o'r Mesur (fel y'u diwygiwyd) wedi disodli'r Offerynnau Statudol canlynol:

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 (Rhif 1895 (Cy.196)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 (Rhif 2555 (Cy.227)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (Rhif 1086 (Cy.115)).

Mae'r Mesur hefyd wedi disodli'r adrannau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â thaliadau i gynghorwyr yng Nghymru.

Nodir y lwfansau ar gyfer aelodau cynghorau tref a chymuned yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn. Dirymwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 (Rhif 895 (Cy. 115)) ar 1 Ebrill 2013.

## Rhan 1

### Cyffredinol

1. a. Teitl byr y Rheoliadau hyn yw: "Rheoliadau IRPW".

b. Daeth Rheoliadau IRPW i rym ar 1 Ebrill 2012. Nodir y dyddiad gweithredu ar gyfer pob awdurdod perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol y Panel.

c. Mae'n ofynnol i Awdurdodau lunio rhestr o daliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, er mwyn iddynt allu eu cyflwyno i'r Panel a'u cyhoeddi (gweler paragraff 46).

**Dehongli**

2. Yn Rheoliadau IRPW:

- Ystyr "Deddf 1972" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Ystyr "Deddf 2000" yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- "Ystyr "Deddf 2013" yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
- Ystyr "lwfans" yw'r union swm neu'r uchafswm y gellir ei ad-dalu i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol am gostau yr aethpwyd iddynt yn anochel wrth gyflawni busnes swyddogol yr awdurdod perthnasol.
- Ystyr "adroddiad blynyddol" yw adroddiad a luniwyd gan y Panel yn unol ag adran 145 o'r Mesur.
- Mae ystyr "dyletswydd gymeradwy" mewn perthynas â chynghorau tref a chymuned fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn
- Mae ystyr "Lwfans Mynychu" mewn perthynas â chynghorau cymuned neu dref fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn.
- Ystyr "awdurdod" yw awdurdod perthnasol yng Nghymru fel y'i diffinnir yn Adran 144(2) o'r Mesur ac mae'n cynnwys awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru, cyngor cymuned neu dref.
- Mae i "Cyflog Sylfaenol" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 6 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel "Cyflog Sylfaenol ALl" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o brif gyngor; "Cyflog Sylfaenol Parc Cenedlaethol" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; a "Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub" i gyfeirio at Gyflog Sylfaenol aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Mae i "Prif Swyddog" prif awdurdod yr ystyr a ddiffinnir yn Neddf Lleoliaeth 2011
- "Pennaeth Dinesig" yw'r sawl a etholwyd gan y cyngor i gyflawni dyletswyddau cadeirydd y cyngor hwnnw, ac mae wedi'i ddynodi'n faer neu'n gadeirydd.
- Mae "pwyllgor" yn cynnwys is-bwyllgor.
- Mae "cyngor tref neu gymuned" yn golygu mewn perthynas â Rhan 8 y Mesur, cyngor cymuned fel y'i diffinnir yn adran 33 Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu gyngor tref yn unol ag adran 245B yr un Ddeddf.

- Ystyr “drafft ymgynghori” yw drafft adroddiad Blynyddol neu Atodol a luniwyd gan y Panel o dan Adran 146 (7) neu 147(8) o'r Mesur, y mae'n rhaid i'r Panel ystyried sylwadau a gyflwynwyd arno.
- “Awdurdod cyfansoddol” – yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod Parc Cenedlaethol yw hwn; yn achos awdurdodau tân ac achub yng Nghymru awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod tân ac achub yw hwn.
- Ystyr “grŵp rheoli” yw grŵp gwleidyddol mewn awdurdod lleol lle mae unrhyw un o'i aelodau yn rhan o'r pwyllgor gweithredol.
- Mae i “aelod cyfetholedig” yr ystyr a nodir yn adran 144 (5) o'r Mesur, hynny yw'r rhai sydd â'r hawl i bleidleisio ar faterion sy'n dod o fewn maes y pwyllgor y maent yn gwasanaethu arno.
- Mae i “ffi aelod cyfetholedig” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 19 o'r Rheoliadau hyn.
- Mae i “Costau Gofal” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 21 o’r Rheoliadau hyn.
- Ystyr “Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd” yw'r pwyllgor awdurdod lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Mesur.
- “Dirprwy Bennaeth Dinesig” yw’r sawl a etholwyd gan y cyngor i fod yn ddirprwy i faer neu gadeirydd y cyngor hwnnw.
- Ystyr “gweithrediaeth” yw gweithrediaeth awdurdod ar ffurf fel y nodir yn adrannau 11(2) i (5) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan adran 34 o'r Mesur.
- Mae i “trefniadau gweithredol” yr ystyr a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.
- Mae i “absenoldeb teuluol”, fel y'i diffinnir yn Adran 142 (2)(b) o'r Mesur, yr ystyr a roddir iddo gan Ran 2 o'r Mesur ac a gynhwysir yn y Rheoliadau sy'n ymwneud â hynny.
- Mae ystyr “Lwfans Colled Ariannol” mewn perthynas â chynghorau cymuned neu dref fel y nodir yn Rhan 5 o’r Rheoliadau.
- Ystyr “awdurdod tân ac achub” yw awdurdod a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.
- Ystyr "Pennaeth gwasanaeth cyflogedig" yw fel y dynodwyd o dan adran 4(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
- Ystyr Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw pwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd gan ddau brif gyngor neu fwy o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.
- Ystyr “grŵp yr wrthblaid fwyaf” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli sydd â nifer uwch o aelodau nag unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn yr awdurdod.
- Ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

- “Ystyr “aelod”, mewn perthynas ag awdurdod lleol neu gyngor cymuned neu dref, yw unigolyn sydd wedi’i ethol i wasanaethu fel cynghorydd i'r awdurdod hwnnw; yn achos awdurdod Parc Cenedlaethol yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol a hefyd unigolyn a benodwyd gan Weinidogion Cymru; yn achos awdurdodau tân ac achub yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol.
- Ystyr “awdurdod Parc Cenedlaethol” yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
- Mae i “busnes swyddogol” yr ystyr a nodir yn Adran 142 (10) o'r Mesur mewn perthynas â thalu lwfansau i ad-dalu costau gofal, teithio a chynhaliaeth yr aethpwyd iddynt yn anochel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol (ac eithrio cynghorau tref a chymuned) wrth:

  a. Fynychu cyfarfod o’r awdurdod neu unrhyw un o bwyllgorau’r awdurdod neu unrhyw gorff y mae’r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw un o bwyllgorau corff o’r fath.
  b. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohoni.
  c. Mynychu cyfarfod yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod neu gan un o bwyllgorau'r awdurdod neu gan un o gydbwyllgorau'r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill.
  d. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu ei bwyllgor gweithredol.
  e. Dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni o fewn yr ystyr a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf 2000, fel y'i diwygiwyd.
  f. Dyletswydd yr ymgymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor.
  g. Dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth sydd gan yr awdurdod i archwilio safle neu awdurdodi archwiliad o safle.
  h. Dyletswydd yr ymgymerir â hi gan aelodau prif gynghorau mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward sy'n deillio o gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol.
  i. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni.

- Ystyr “grŵp gwleidyddol arall” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli neu grŵp yr wrthblaid fwyaf (os o gwbl) sy'n cynnwys dim llai na 10 y cant o aelodau'r awdurdod hwnnw

- Ystyr “pwyllgor trosolwg a chraffu” yw pwyllgor yn yr awdurdod sydd â’r pwerau a nodir yn adran 21(2) a (3) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan Ran 6 o'r Mesur.
- “Ystyr “Panel” yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn adran 141(1) ac atodlen 2 o'r Mesur.
- Ystyr "datganiad polisi cyflog" yw datganiad a gynhyrchir gan awdurdod perthnasol o dan adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.
- Ystyr "Aelod llywyddol" yw aelod o brif gyngor sydd wedi ei ddynodi gan y cyngor hwnnw i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chadeirio ei gyfarfodydd a'i drafodion.
- Ystyr “prif gyngor” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
- Mae i “swyddog priodol” yr un ystyr ag yn adran 270(3) o Ddeddf 1972.
- Ystyr "corff cyhoeddus" yw corff fel y'i diffinnir yn adran 67(b) o Ddeddf 2013.
- “Ystyr "darpariaeth gymwys" yw darpariaeth sy'n gwneud amrywiad i benderfyniad blaenorol y Panel (adran 65 (c) o Ddeddf 2013).
- "Awdurdod cymwys perthnasol" yw awdurdod o fewn ystyr adran 63 o Ddeddf 2013, y mae'n ofynnol iddo gynhyrchu datganiad polisi cyflog.
- Diffinnir “awdurdod perthnasol” yn Adran 144(2) o'r Mesur (fel y'i diwygiwyd) ac yn adran 64 o Ddeddf 2013, ac, at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'n cynnwys awdurdod lleol/prif gyngor, cyngor tref neu gymuned, awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Mae i “materion perthnasol” yr un diffiniad ag a nodir yn Adran 142(2) o'r Mesur.
- Ystyr “rhestr” yw rhestr sy'n nodi penderfyniadau'r awdurdod mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn (fel y maent yn ymwneud â'r awdurdod hwnnw) i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw.
- Mae i “Uwch Gyflog” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 11 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel “Uwch Gyflog Awdurdod Lleol/Prif gyngor” i gyfeirio at uwch gyflog aelod o brif gyngor; “Uwch Gyflog Parc Cenedlaethol” i gyfeirio at uwch gyflog aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; neu “Uwch Gyflog awdurdod Tân ac Achub” i gyfeirio at uwch gyflog aelod o awdurdod Tân ac Achub.
- Mae “absenoldeb oherwydd salwch” yn golygu’r trefniadau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol.
- Mae i “adroddiad atodol” yr ystyr a nodir yn adran 146(4 i 8) o'r Mesur
- Mae i “lwfans teithio a chynhaliaeth” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 25 o'r Rheoliadau hyn.
- Mae i “blwyddyn” yr ystyron canlynol:

"blwyddyn ariannol" – cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

"blwyddyn galendr" – y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr;

"blwyddyn ddinesig" – y flwyddyn sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod blynyddol yr awdurdod lleol ac yn dod i ben ar y diwrnod cyn y cyfarfod blynyddol y flwyddyn ganlynol; yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau Tân ac Achub dyma'r cyfnod o 12 mis sy'n dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

## Rhan 2: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau/ Aelodau Cyfetholedig

### Dechrau cyfnod swydd

3. Mae cyfnod swydd:

- Aelod o awdurdod lleol yn dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod hwnnw yn gwneud datganiad ei fod yn derbyn y swydd honno o dan adran 83(1) o Ddeddf 1972.
- Aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn dechrau ar ddyddiad y penodiad hwnnw. Mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod Parc Cenedlaethol yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
- Aelod o awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod tân ac achub yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
- Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol yn dechrau ar y dyddiad y'i penodir gan yr awdurdod perthnasol.

### Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau (y Rhestr) (Nid yw'n berthnasol i gynghorau cymuned neu dref – gweler Rhan 5)

4. Mae'n rhaid i awdurdod lunio rhestr o'r taliadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig bob blwyddyn. Mae'n rhaid i swm y taliadau hynny gyd-fynd â'r penderfyniadau a wnaeth y Panel ar gyfer y flwyddyn honno yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Mae'n rhaid llunio'r rhestr cyn pen pedair wythnos yn dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

## Diwygio’r Rhestr

5. Gall awdurdod ddiwygio'r Rhestr unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) ar yr amod bod y cyfryw ddiwygiadau yn cyd-fynd â phenderfyniadau’r Panel ar gyfer y flwyddyn honno.

## Cyflog Sylfaenol

6. Mae'n rhaid i awdurdod ddarparu ar gyfer talu cyflog sylfaenol, fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol, i bob un o'i aelodau. Mae'n rhaid talu'r un cyflog i bob aelod. Yn achos prif gynghorau yn unig, mae'r cyflog hwn yn parhau'n daladwy yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.

7. Ni all aelod dderbyn mwy nag un Cyflog Sylfaenol gan awdurdod perthnasol, ond gall aelod o un awdurdod perthnasol dderbyn cyflog sylfaenol pellach trwy gael ei benodi'n aelod o awdurdod perthnasol arall (ac eithrio yn yr achos a nodir ym mharagraff 16).

8. Pennir y Cyflog Sylfaenol yn unol ag adran 142(3) o'r Mesur a bydd yn un o'r canlynol:

- Y swm y mae’n rhaid i’r awdurdod ei dalu i aelod o’r awdurdod.
- Yr uchafswm y gall yr awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod.

9. Os bydd cyfnod swydd aelod yn dechrau neu'n dod i ben rywbryd heblaw ar ddechrau neu ar ddiwedd blwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod), bydd gan yr aelod hwnnw hawl i gyfran o’r cyflog sylfaenol sy'n cyfateb i’r gyfran o nifer y diwrnodau yn y flwyddyn honno y mae’r aelod yn ei swydd.

10. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r rhan o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod hwnnw wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

## Uwch Gyflog

11. Yn amodol ar baragraffau 12 i 18 gall awdurdod dalu uwch gyflog i aelodau y mae wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddynt. Mae'n rhaid i'r cyfryw daliadau gyd-fynd â phenderfyniad y Panel ar gyfer y flwyddyn honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y gwneir y taliadau mewn perthynas â hi ac mae'n rhaid eu nodi yn Rhestr yr awdurdod hwnnw. Yn achos prif gynghorau yn unig, bydd uwch gyflog yn parhau'n daladwy yn ystod absenoldeb teuluol deiliad y swydd.

12. Bydd y Panel yn pennu'r canlynol yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol:

- Y categorïau o aelodau sy'n gymwys i gael uwch gyflog na fyddant, o bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod
- Y disgresiwn sydd ar gael i awdurdodau o ran talu uwch gyflogau na fyddant, o bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

13. Bydd yr uwch gyflogau sy'n daladwy yn cydymffurfio ag adran 142(3) o'r Mesur a byddant yn nodi:

- Y swm y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.
- Yr uchafswm y gall awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.

14. Bydd yr uwch gyflog yn gyfuniad o'r cyflog sylfaenol a swm ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldeb penodol perthnasol a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol. neu Atodol. Mae'n bosibl na fydd y swm hwn yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

15. Bydd y Panel, yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol, yn pennu naill ai'r gyfran uchaf o'i aelodaeth neu gyfanswm yr aelodau y gall awdurdod dalu uwch gyflogau iddynt. Ni all y ganran fod yn uwch na hanner cant y cant heb ganiatâd penodol Gweinidogion Cymru (Adran 142(5) o'r Mesur). Yn achos prif gynghorau yn unig gellir mynd y tu hwnt i'r gyfran neu'r nifer uchaf i gynnwys talu uwch gyflog i aelod ychwanegol a benodir i ddirprwyo dros dro yn ystod absenoldeb teuluol deiliad swydd ag uwch gyflog (yn amodol ar y terfyn o 50%).

15(a). Yn achos prif gynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gellir mynd y tu hwnt i'r gyfran neu'r nifer uchaf i gynnwys talu uwch gyflog i aelod ychwanegol a benodir i ddirprwyo dros dro yn ystod absenoldeb oherwydd salwch deiliad swydd ag uwch gyflog fel y pennwyd yn yr Adroddiad Blynyddol neu mewn Adroddiad Atodol.

15(b). Mae taliadau i gadeiryddion Cydbwyllgorau neu Is-bwyllgorau i Gydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o'i aelodaeth y gall awdurdod dalu uwch gyflogau iddynt yn amodol ar yr uchafswm cyffredinol o hanner cant y cant sydd wedi'i gynnwys yn Adran 142(5) o'r Mesur. Bydd y Panel yn pennu symiau taliadau o'r fath mewn Adroddiad Blynyddol neu Atodol.

16. Ni ddylai awdurdod dalu mwy nag un uwch gyflog i unrhyw aelod. Ni all aelod o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog fel arweinydd awdurdod lleol neu aelod o weithrediaeth awdurdod lleol (y mae'r Panel wedi pennu ei fod yn llawn-amser) gael ail gyflog fel aelod a benodir i wasanaethu ar awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

16(a). Nid yw paragraff 16 yn berthnasol i daliadau a wneir i gadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n cael uwch gyflog am rôl nad yw wedi'i dosbarthu fel un sy'n gyfwerth ag amser llawn. Mae'n parhau i fod yn berthnasol i arweinwyr neu aelodau gweithrediaeth.

17. Os nad oes gan aelod, trwy gydol y flwyddyn, gyfrifoldebau penodol sy'n rhoi hawl iddo gael uwch gyflog, bydd tâl yr aelod hwnnw'n gyfran o'r cyflog sy'n cyfateb i'r gyfran o nifer y diwrnodau yn y flwyddyn honno y mae'r aelod hwnnw'n ysgwyddo'r cyfryw gyfrifoldeb.

18. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu uwch gyflog yr aelod tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur). Os bydd y penderfyniad i'w atal dros dro yn ymwneud â'r elfen o'r taliad sy'n ymwneud â'r cyfrifoldeb penodol yn unig, gall yr aelod gadw'r cyflog sylfaenol.

**Talu i Aelodau Cyfetholedig**

19. Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ddarparu ar gyfer talu ffi i aelod cyfetholedig fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Mewn perthynas â'r rheoliad hwn ystyr aelod cyfetholedig yw aelod fel y'i diffinnir yn Adran 144(5) o'r Mesur ac y'i nodir ym mharagraff 2 o'r Rheoliadau hyn.

20. Os caiff aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu ffi aelod cyfetholedig tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur).

**Lwfansau**

**Costau Gofal**

21. Mae'n rhaid i awdurdodau ddarparu ar gyfer gwneud ad-daliad i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod mewn perthynas â'r cyfryw gostau sy'n gysylltiedig â threfnu gofal ar gyfer plant neu ddibynyddion neu ar gyfer yr aelod unigol yr aethpwyd iddynt yn anorfod wrth gyflawni busnes swyddogol fel aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod hwnnw. Ni ddylid gwneud taliadau o dan y paragraff hwn:

- Mewn perthynas ag unrhyw blentyn dros bymtheg oed neu ddibynnydd oni bai fod yr aelod/aelod cyfetholedig yn bodloni'r awdurdod bod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu ddibynnydd a achosodd i'r aelod fynd i gostau angenrheidiol ar gyfer gofal y plentyn neu'r dibynnydd hwnnw wrth gyflawni dyletswyddau aelod neu aelod cyfetholedig.
- I fwy nag un aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod mewn perthynas â gofal ar gyfer yr un plentyn neu ddibynnydd.
- I roi mwy nag un ad-daliad ar gyfer gofal i aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod na all ddangos er bodd yr awdurdod bod yn rhaid i'r aelod/aelod cyfetholedig wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofalu am wahanol blant neu ddibynyddion.

22. Mae'r Panel yn pennu'r uchafswm o ran costau gofal sy'n daladwy gan awdurdod yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

23. Os caiff aelod/aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) mae'n rhaid i'r awdurdod beidio â thalu'r rhan o'r ad-daliad costau gofal sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â’r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod/aelod cyfetholedig wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

24. Mae'n rhaid i Restr awdurdod nodi uchafswm yr ad-daliadau costau gofal sy'n daladwy bob mis a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno hawliadau, gan roi sylw llawn i benderfyniadau'r Panel yn hyn o beth.

### Lwfansau teithio a chynhaliaeth

25. Yn amodol ar baragraffau 26 a 27 isod mae gan aelod neu aelod cyfetholedig hawl i gael taliadau gan yr awdurdod ar ffurf lwfansau teithio a chynhaliaeth yn ôl cyfraddau a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Bwriedir i'r cyfryw lwfansau dalu costau yr aed iddynt gan aelod neu aelod cyfetholedig wrth gyflawni busnes swyddogol yr awdurdod.

**(Dim ond i Brif Gynghorau mae paragraffau 26 a 27 yn berthnasol)**

26. Dim ond os yw’r awdurdod yn fodlon y gellir cyfiawnhau hynny am resymau economaidd y dylid talu lwfans cynhaliaeth i aelod o awdurdod lleol am gyflawni busnes swyddogol o fewn ffiniau sir neu fwrdeistref sirol lle mae'n aelod. Nid yw hyn yn berthnasol i aelodau cyfetholedig awdurdod lleol sy'n byw y tu allan i'r awdurdod hwnnw.

27. Gall awdurdod lleol wneud darpariaeth, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yr ystyria’n briodol, i aelodau hawlio costau milltiredd ar gyfer busnes swyddogol mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward lle maent yn deillio o gyflawni swyddogaethau'r sir neu'r fwrdeistref sirol.

28. Os caiff aelod neu aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r lwfans teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

## Rhan 3: Darpariaethau pellach

### Pensiynau

29. O dan Adran 143 o'r Mesur, gall y Panel wneud penderfyniadau o ran y

trefniadau pensiwn ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Gall penderfyniadau o’r fath:

- Nodi’r disgrifiad o aelodau y bydd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu pensiwn iddynt.
- Disgrifio’r materion perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu pensiwn mewn cysylltiad â hwy.
- Gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer prif gynghorau gwahanol.

### Lwfansau i gefnogi swyddogaeth aelod o awdurdod lleol

30. Mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu ar gyfer gofynion aelod i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn fwy effeithiol. Y Panel fydd yn pennu sut y dylid darparu’r cymorth hwn yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

### Talu treuliau ymweliadau swyddogol ac ymweliadau cwrteisi

31. Bydd y trefniadau sydd wedi’u cynnwys yn Adran 176 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn parhau i fod yn gymwys, ond ni ellir gwneud unrhyw daliad i unigolyn o dan y trefniant hwnnw pan fo taliad wedi’i wneud i’r unigolyn hwnnw yn unol ag unrhyw daliad o wneir o dan y Rheoliadau hyn.

### Trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb teuluol

32. Mae Rhan 2 o'r Mesur yn nodi hawliau aelodau awdurdodau lleol o ran absenoldeb teuluol. Bydd y Panel yn nodi ei benderfyniadau a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer talu cyflogau a lwfansau gan brif gynghorau yn hyn o beth yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

### Absenoldeb oherwydd salwch

32(a) Bydd trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb hirdymor oherwydd salwch gan ddeiliaid uwch gyflogau prif awdurdodau, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol y Panel.

## Rhan 4: Cyflogau, lwfansau neu ffioedd

### Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

33. Mae'n rhaid i awdurdod fynnu bod y cyfryw ran o gyflog, lwfans neu ffi yn cael ei had-dalu pan fydd taliad eisoes wedi'i wneud ar gyfer unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod neu'r aelod cyflogedig dan sylw:

- wedi’i atal dros dro neu wedi’i atal dros dro yn rhannol rhag cyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau’r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu Reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno.

- yn peidio â bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod.
- neu heb fod â hawl, mewn unrhyw ffordd, i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

### Peidio â derbyn cyflogau, lwfansau neu ffioedd

34. O dan Adran 154 o'r Mesur gall unrhyw aelod neu aelod cyfetholedig, ddewis drwy hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod yn ysgrifenedig, peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael cyflog, lwfans neu ffi a bennwyd gan y Panel ar gyfer y flwyddyn benodol honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod).

## Rhan 5: Darpariaethau penodol sy’n ymwneud â chynghorau tref a chymuned (“y cyngor”)

### Dehongli

35. At ddibenion y Rhan hon, ystyr aelod yw aelod etholedig ac aelod cyfetholedig.

### Lwfansau

36. Lwfansau:

a) Gall y cyngor, os yw’n penderfynu, wneud taliad blynyddol i aelodau mewn perthynas â’r costau a gaiff eu gwario wrth gyflawni rôl aelod. Nodir yr uchafswm sy’n daladwy yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

b) Gall y cyngor, os yw’n penderfynu, wneud taliadau i aelodau mewn perthynas â chostau teithio i fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu mewn neu’r tu allan i ardal y cyngor. Nodir y swm y gellir ei hawlio yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

c) Gall y cyngor, os yw’n penderfynu, ad-dalu treuliau cynhaliaeth i’w aelodau pan fyddant yn mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu mewn neu’r tu allan i ardal y cyngor. Nodir y trefniadau ar gyfer ad-dalu yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

d) Gall y cyngor, os yw’n penderfynu, dalu iawndal am Golled Ariannol i’w aelodau lle mae colled o’r fath wedi digwydd trwy fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Nodir y Lwfansau yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

e) Gall y cyngor, os yw’n penderfynu, dalu lwfans i gadeirydd neu faer y cyngor at ddibenion cyflawni swyddogaethau’r swydd honno. Nodir y lwfans yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel

f) Gall y cyngor, os yw’n penderfynu, dalu lwfans cyfrifoldeb i nifer o’i aelodau fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel.

g) Gall y cyngor, os yw’n penderfynu, ad-dalu costau gofal i aelod fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel.

37. Gall aelod ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael lwfans dan y Rheoliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y cyngor yn ysgrifenedig.

38. Mae'n rhaid i aelod sy'n hawlio iawndal am Golled Ariannol lofnodi datganiad nad yw'r aelod wedi gwneud, nac yn bwriadu gwneud, unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef.

39. "Ystyr "Dyletswydd Gymeradwy" dan y Rhan hon yw

i. Mynychu cyfarfod o'r cyngor neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor neu unrhyw gorff arall y mae'r cyngor yn penodi neu'n enwebu pobl iddo neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau corff o'r fath.
ii. Mynychu unrhyw gyfarfod arall a awdurdodir gan y cyngor neu gan un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor, neu un o gydbwyllgorau'r cyngor ac un neu fwy o gynghorau, neu is-bwyllgor i gydbwyllgor o'r fath, ar yr amod bod o leiaf ddau aelod o'r cyngor wedi cael eu gwahodd a, lle caiff y cyngor ei rannu'n grwpiau gwleidyddol, bod o leiaf ddau grŵp o'r fath wedi'u gwahodd.
iii. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas ar gyfer cynghorau y mae'r cyngor yn aelod ohoni.
iv. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan y cyngor.
v. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan y cyngor neu ddyletswydd o fath a gymeradwyir gan y cyngor i gyflawni ei swyddogaethau neu swyddogaethau unrhyw un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau.

## Rhan 6: Amrywiol

### Trefniadau ar gyfer taliadau

40. Mae'n rhaid i Restr awdurdod nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw. Gellir gwneud y taliadau hynny ar yr adegau ac mor reolaidd ag a bennir gan yr awdurdod.

### Hawliadau

41. Mae'n rhaid i awdurdod nodi terfyn amser rhwng y dyddiad y mae hawl i lwfans teithio neu gynhaliaeth yn digwydd a phan fydd yn rhaid i gais am y lwfansau hynny gael ei wneud gan y sawl y maent yn daladwy iddo. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro awdurdod rhag gwneud taliad os na hawlir y lwfans o fewn y cyfnod a nodwyd.

42. Mae'n rhaid cyflwyno derbynebau priodol sy'n profi costau gwirioneddol gydag

unrhyw hawliad am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth yn unol â'r Rheoliadau hyn (ac eithrio ceisiadau am gostau teithio mewn cerbyd modur preifat.

**Osgoi dyblygu**

43. Mae'n rhaid i hawliad am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig yn nodi nad yw'r aelod/aelod cyfetholedig wedi gwneud ac na fydd yn gwneud unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef neu mae'n rhaid anfon datganiad o’r fath gyda'r hawliad.

**Cofnodion o gyflogau, lwfansau a ffioedd**

44. Mae'n rhaid i awdurdod gadw cofnod o'r taliadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn. Mae'n rhaid i'r cofnod:

- Nodi enw'r derbynnydd a swm a natur pob taliad.
- Bod ar gael, ar bob adeg resymol, i'w archwilio (am ddim) gan unrhyw etholwr llywodraeth leol (o fewn ystyr adran 270(1) o Ddeddf 1972) yn ardal yr awdurdod.
- Alluogi unigolyn sydd â hawl i archwilio'r cofnod wneud copi o unrhyw ran ohono ar ôl talu unrhyw ffi resymol y gall yr awdurdod ofyn amdani.

**Gofynion o ran cyhoeddusrwydd**

(Mae cynnwys gofynnol gofynion o ran cyhoeddusrwydd wedi’i gynnwys mewn atodiad wrth yr Adroddiad Blynyddol)

45. Mae'n rhaid i awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu ar ei Restr Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn o dan y Rheoliadau hyn ac unrhyw Adroddiad gan y Panel, a heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati, wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod. **(Nid yw’r adran hon yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned).**

46. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a heb fod yn hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd blwyddyn, mae'n rhaid i awdurdod wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi, yn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod/aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog sylfaenol, uwch gyflog, ffi aelod cyfetholedig, ad-daliadau costau gofal, lwfansau teithio a chynhaliaeth. **(Mae’r adran hon yn berthnasol i bob awdurdod perthnasol.)**

47. O fewn yr un terfyn amser ac yn yr un modd, mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a dderbyniodd aelod a enwebwyd neu a benodwyd i awdurdod perthnasol arall. **(Mae’r adran hon yn berthnasol i’r prif cynghorau yn unig).**

**Cyhoeddusrwydd i Adroddiadau'r Panel**

48. O dan Adran 146(7) (a) a (b) o'r Mesur, bydd y Panel yn anfon drafft ymgynghori o'i Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol i bob awdurdod perthnasol i'w ddosbarthu i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod, er mwyn i aelodau/aelodau cyfetholedig gyflwyno sylwadau arno i'r Panel, o fewn cyfnod o wyth wythnos fel arfer.

49. Yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol bydd y Panel yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiadau yn unol ag Adran 151 ac Adran 152 o'r Mesur.

**Monitro Cydymffurfiaeth â Phenderfyniadau'r Panel**

50. Mae Adran 153 o'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Panel fonitro'r taliadau a wneir gan awdurdodau perthnasol a'i gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a nodir gan y Panel gael ei darparu. Nodir y gofynion o dan yr adran hon yn Adroddiad Blynyddol y Panel.

# Atodiad 3: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

1. Mae'n rhaid i brif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol (APCau) ac awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru (ond nid cynghorau tref a chymuned) gynnal Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol flynyddol ('y Rhestr') sy'n cyd-daro â phenderfyniadau'r Panel ynghylch cyflogau i aelodau a thaliadau i aelodau cyfetholedig ac y mae'n rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

Mewn perthynas â phrif gyngor:

a. Enwau aelodau a fydd yn cael y cyflog sylfaenol yn unig a'r swm i'w dalu.

b. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch gyflog Band 1 a Band 2, y swydd a'r portffolio sydd ganddynt a'r swm i'w dalu.

c. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch gyflog Band 3, Band 4 a Band 5, y swydd a'r portffolio sydd ganddynt a'r swm i'w dalu.

d. Enwau'r aelodau a fydd yn cael cyflog dinesig a'r swm i'w dalu.

e. Enwau'r aelodau a fydd yn cael ffi aelod cyfetholedig a ph'un a ydynt yn gadeirydd ynteu'n aelod cyffredin a'r swm i'w dalu.

f. Enwau'r aelodau a fydd yn derbyn uwch gyflog fel cadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r swm i'w dalu.

g. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch gyflog penodol neu ychwanegol a gymeradwywyd gan y Panel a'r swm i'w dalu.

Mewn perthynas ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub:

a. Enwau'r aelodau a fydd yn cael y cyflog sylfaenol yn unig a'r swm i'w dalu

b. Enw'r Aelod a fydd yn cael uwch gyflog fel cadeirydd yr awdurdod a'r swm i'w dalu.

c. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch gyflog fel is-gadeirydd pwyllgor a'r swm i'w dalu.

d. Enwau'r aelodau a fydd yn cael ffi aelod cyfetholedig a pha un a ydynt yn gadeirydd neu'n aelod cyffredin a'r symiau i'w talu.

2. Mae'n rhaid hysbysu'r Panel ynghylch diwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod blwyddyn y cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

3. Mae'n rhaid i brif gynghorau gadarnhau yn eu Rhestr flynyddol nad ydynt wedi mynd dros uchafswm yr uwch gyflogau a bennwyd ar gyfer y cyngor.

4. Mae'n rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau gynnwys datganiad o dreuliau y gellir eu caniatáu a'r dyletswyddau y gellir eu hawlio mewn perthynas â hwy

ar gyfer gofal, teithio a chynhaliaeth yn eu Rhestr flynyddol sy'n cyd-daro â phenderfyniadau'r Panel.

5. Mae'n rhaid i'r Rhestr nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod perthnasol (Rheoliad 35 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer hawlio costau gofal, treuliau teithio a chynhaliaeth (Rheoliadau 24 a 36-37 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer osgoi dyblygu (Rheoliad 38 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol)**;** a'r trefniadau ar gyfer ad-dalu cyflogau, lwfansau a ffioedd (Rheoliad 33 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol)**.** Mae'n rhaid i'r rhestr hon hefyd gynnwys y dyletswyddau y gall aelodau ac aelodau cyfetholedig hawlio treuliau teithio, cynhaliaeth ac ad-daliadau costau gofal mewn perthynas â hwy.

6. Mae'n rhaid i brif gynghorau ddatgan y canlynol yn y Rhestr:

- A oes datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd wedi'i wneud.
- A oes disgrifiadau o rôl deiliaid swyddi ag uwch gyflog wedi'u llunio.
- A gedwir cofnodion o bresenoldeb cynghorwyr.

7. Mae'n rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Dylid anfon hon at y Panel heb fod yn hwyrach na'r dyddiad hwn. Dylid cyhoeddi'r Rhestr mewn modd sy'n rhoi mynediad hawdd i aelodau'r cyhoedd.

8. Mae'n rhaid anfon y Rhestr at ysgrifenyddiaeth y Panel erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

# Atodiad 4: Cyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol – Gofynion y Panel

Yn unol ag Adran 151 o'r Mesur, mae'r Panel yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

1. Mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol gyhoeddi Datganiad o Daliadau a wnaed i'w aelodau (gan gynnwys cadeiryddion Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgorau i Gydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu). Mae'n rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ffurf ac mewn lleoliad sy'n hygyrch i aelodau'r cyhoedd fan bellaf erbyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'r taliadau'n berthnasol iddi a'i darparu ar gyfer y Panel hefyd o fewn yr un terfyn amser. Mae'n rhaid darparu'r wybodaeth ganlynol:

    a. Swm y cyflog sylfaenol, yr uwch gyflog, y cyflog dinesig a'r ffi aelod cyfetholedig a dalwyd i bob aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol a enwir gan gynnwys achosion lle dewisodd yr aelod beidio â chael y cyfan neu ran o'r cyflog, neu'r ffi ar gyfer blwyddyn y Cyngor sydd dan sylw. Lle talwyd uwch gyflog, dylid darparu teitl yr uwch swydd a ddelir.

    b. Y taliadau a wnaed gan gynghorau tref a chymuned i aelodau a enwir fel:

        - Taliadau mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, deunyddiau traul a.y.b.
        - Taliadau cyfrifoldeb
        - Lwfansau a dalwyd i faer/cadeirydd a dirprwy faer/dirprwy gadeirydd
        - Iawndal am Golled Ariannol
        - Costau a ysgwyddwyd mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth
        - Ad-daliadau costau gofal (gweler paragraff f isod)

    c. Yr holl dreuliau teithio a chynhaliaeth, ad-daliadau costau gofal (gweler paragraff f isod) a thaliadau eraill a gafodd pob aelod ac aelod cyfetholedig a enwir o'r awdurdod perthnasol, gyda phob categori wedi'i nodi ar wahân.

    d. Swm unrhyw daliadau pellach a gafodd unrhyw aelod a enwir a oedd wedi'i enwebu i, neu'i benodi gan awdurdod perthnasol arall neu gorff cyhoeddus arall yn ôl y diffiniad yn Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sef:

        - bwrdd iechyd lleol
        - panel heddlu a throseddu
        - awdurdod perthnasol
        - corff a ddynodwyd yn gorff cyhoeddus mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

    e. Enwau'r aelodau na chawsant y cyflog sylfaenol neu'r uwch gyflog am eu bod wedi'u hatal dros dro am y cyfan neu ran o'r cyfnod blynyddol y mae'r Rhestr yn berthnasol iddo.

f. Mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliadau costau gofal, mae'r Panel wedi penderfynu rhoi dau ddewis i awdurdodau perthnasol.

1) Manylion y symiau a ad-dalwyd i aelodau a enwir; neu'r
2) Cyfanswm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ond heb briodoli'r taliadau i unrhyw aelod a enwir.

Mater i bob awdurdod yw penderfynu pa un o'r dewisiadau hyn ar gyfer cyhoeddi sy'n briodol yn ei dyb ef.

Mae hefyd yn gyfrifoldeb ar bob awdurdod i sefydlu ei safle ei hun ar sut i ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y mae'n ei dderbyn o ran ad-dalu costau gofal.

2. Mae'n ofynnol cyhoeddi ffurflenni heb gofnodion o daliadau a'u darparu ar gyfer y Panel erbyn 30 Medi.

# Atodiad 5: Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Bader
Cadeirydd
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
irpmailbox@wales.gsi.gov.uk

17 Mawrth 2016

Annwyl John

Diolch am y copi o'ch Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2016; roedd yn dda gennyf nodi nad ydych wedi cynnig unrhyw gynnydd mewn cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y cyflog sylfaenol na'r uwch gyflog o ystyried y pwysau parhaus y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu. Roedd yn ddiddorol gennyf weld bod y Panel wedi cyflwyno dwy lefel o gyflog ar gyfer Aelodau Gweithrediaeth i ddarparu mwy o hyblygrwydd ar lefel leol ac i adlewyrchu'r gwahaniaethau lawer yn y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â swyddi penodol.

Rydych yn ymwybodol bod llwyth gwaith y Panel yn debygol o gynyddu yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld. Bydd hyn yn cynnwys rôl y Panel o ran ystyried pa gydnabyddiaeth ariannol sy'n briodol ar gyfer Awdurdodau Cysgodol neu Gynghorau newydd ar ôl i gynghorau uno, fel y nodir yn adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015. Rwyf hefyd yn nodi'r estyniad dros dro yn swyddogaeth y Panel mewn perthynas â chyflogau prif swyddogion yn adran 39 o'r Ddeddf honno.

O ganlyniad i newidiadau o'r fath bydd aelodaeth y Panel yn cael ei gynyddu i chwech ym mis Mehefin eleni. Yng ngoleuni ehangiad o'r fath gobeithio y bydd y Panel yn darparu rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer aelodau newydd.

Edrychaf ymlaen at weld sut y bydd y Panel yn datblygu dros y blynyddoedd nesaf, ac yn cyfrannu at ddatblygu polisïau newydd mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol i aelodau.

Edrychaf ymlaen hefyd at dderbyn eich adroddiad blynyddol nesaf a nodi i ba raddau y mae'r newidiadau i'ch swyddogaethau wedi effeithio ar eich gwaith.

Yn gywir

**Leighton Andrews AC/AM**

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
**Ystafell M.05**
**Llawr Cyntaf**
**Adeiladau'r Goron**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

**Ffôn: 029 2080 1047**
**E-bost: irpmailbox@wales.gsi.gov.uk**

**Mae'r Adroddiad a gwybodaeth arall ynglŷn a gwaith y Panel ar gael ar ein gwefan yn:**
**www.remunerationpanelwales.org.uk**